# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 557 · **Hydref 2024** · 70c

## Y LLAIS YN DATHLU EI BENBLWYDD YN



## ARDDANGOSFA yn NEUADD OGWEN

**22 – 26 Hydref 2024**

**o 10.00 – 4.00yp**

**Galwch heibio – Mynediad am ddim**




## SWPER DATHLU 50 MLYNEDD Llais Ogwan




**Clwb Rygbi Bethesda**

**Nos Wener, 25 Hydref am 7 o'r gloch**

ADLONIANT gan

## LLEUCU GWAWR

Mynediad trwy docyn yn unig

Pris : £5.00

*Ar gael yn y Clwb Rygbi; Siop a Swyddfa Ogwen; Walter Williams, 01248 601167; Neville Hughes, 01248 600853*




**YN Y RHIFYN HWN:**



Diolch Mel - camu lawr wedi degawd



Iaith Pesda



Emyr yn codi arian

# Llais Ogwan

**Rhif 557**
**Hydref 2024**


### Panel Golygyddol

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com

**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com

**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk

**Catrin Wager**
(Ffôn 07366 418318)
catrinwager@yahoo.co.uk

### Swyddogion

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 /
07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com

### Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com


## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
**Neville Hughes**

Y golygydd ym mis **Tachwedd** fydd
**Ieuan Wyn,** Talgarreg, Ffordd Carneddi,
Bethesda, LL57 3SG
01248 600297
Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 26 Hydref** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 14 Tachwedd**
yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW: NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.**

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol diweddar yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris o'r £27 arfaethedig i £35 am y flwyddyn 2024.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Hydref**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (84) | Christina Roberts, Maes y Garnedd, Bethesda. |
| £20.00 | (140) | Aled Hughes, Bryn, Llandygai. |
| £10.00 | (70) | Vera Jones, Glan Ffrydlas, Bethesda. |
| £5.00 | (162) | Linda Brown, Gerlan. |

## Dyddiadur y Dyffryn

**Hydref**

| | |
|---|---|
| 18/19 | Neuadd Ogwen. Mawr y Rhai Bychain 2024 |
| 19 | Steve Eaves a Rhai Pobol. Neuadd Bentref Rhiwlas am 8.00 |
| 22 | Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00. |
| 22 – 26 | Arddangosfa dathlu 50 Llais Ogwan. Cefnfaes. 10.00 – 4.00. |
| 23 | Neuadd Ogwen. Harold Lopez- Nussa- Pedwarawd Jazz Ciwba. |
| 25 | Noson Dathlu 50 Llais Ogwan. Bwyd ac Adloniant - Clwb Rygbi Bethesda. |
| 25 | Cymhorthfa Siân Gwenllian AS a'r Cyng. Rheinallt Puw ym Methesda. (01286 672076) |
| 28 | Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00 |
| 28 | Te Bach. Ysgoldy Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00. |
| 29 | Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00. |
| 30 | Clwb Hanes Rachub a Llanllechid. Clwb Criced am 7.00 |

**Tachwedd**

| | |
|---|---|
| 02 | Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Top Cefnfaes. 10.00 – 12.00 |
| 07 | Cyfarfod Blynyddol Llais Ogwan. Llawr Isaf Cefnfaes am 7.00. |
| 11 | Cymdeithas Hanes D. Ogwen gyda Howard Huws. Festri Jerusalem am 7.00. |
| 14 | Noson Gasglu a Dosbarthu Llais Ogwan. Top Cefnfaes am 6.45. |
| 14 | Cymdeithas Jerusalem. Everest gan Ioan Jones. Y festri am 7.00 |
| 15 | Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen am 6.00. |
| 16 | Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen am 10.00. |
| 20 | Ffair Nadolig Bethesda. Neuadd Ogwen. 5.00 - 8.00. |
| 22 | Cyngerdd Elvis yn Fyw. Clwb Criced Bethesda am 7.00. |
| 24 | Cymanfa Garolau yn Shiloh Newydd, Tregarth am 7.30 |
| 25 | Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00. |

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £2.30 | Mrs. Doris Shaw, Arafa Don, Bethesda. |
| £20.00 | Di-enw, Erw Las, Bethesda. |
| £10.00 | Rob ac Elen. |
| £10.00 | Nia a John Baglan, Llandygai. |
| £6.80 | Renee Taylor, Ffordd Pant, Bethesda. |
| £10.00 | Alan Davies, Porthaethwy. |

**Diolch yn fawr**

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

# Diolch Mel - camu lawr wedi degawd



**Meleri Davies yn Gadael y Bartneriaeth**
Mae Meleri Davies wedi camu i lawr o'i swydd fel Prif Weithredwr Partneriaeth Ogwen, ar ôl treulio degawd yn arwain y fenter.

Hoffem ddiolch i Mel am ei holl waith caled dros y blynyddoedd diwethaf!



**Donna Watts yn Cymryd yr Awennau gan Meleri Davies**
Bydd Donna Watts yn ymgymryd â rôl Prif Swyddog Gweithredol. Mae hi wedi bod yn gweithio i'r bartneriaeth am 9 o flynyddoedd ac edrych ymlaen at arwain tîm o dros 20.

I nodi'r achlysur hwn, hoffem ni fel ei chydweithwyr, ffrindiau a thrigolion Dyffryn Ogwen edrych yn ôl a dathlu'r cyfan mae Meleri wedi'i gyflawni a'i wneud ar gyfer y Dyffryn sydd wedi ei chroesawu ac sy'n gartref iddi bellach.

Dechreuodd Meleri fel Datblygwr Cymunedol ar gyfer y Partneriaeth Ogwen newydd yn 2014, ac ynghyd â sefydlu Siop Ogwen, un o'r prosiectau mawr cyntaf oedd cychwyn cynllun ynni dŵr sy'n eiddo i'r gymuned, Ynni Ogwen. O'r cynnig cyfranddaliadau cymunedol cychwynnol, a gafodd gefnogaeth aruthrol yn lleol, mae Ynni Ogwen wedi mynd o nerth i nerth, yn cynnwys gosod paneli solar ar lawer o adeiladau cymunedol yn ogystal ag ariannu sawl prosiect amgylcheddol a chymunedol lleol.

Mae ei gwaith arloesol yn y maes wedi ei gydnabod yn bell ac agos, ac mae Meleri wedi ennill sawl gwobr am ei gwaith gyda chynllun arloesol Ynni Ogwen yn cynnwys 'Green Energy Pioneer' yng ngwobrau Green Energy Award Winners ac Eiriolydd Cynaliadwyedd yn Gwobrau Academi Gynaliadwy.

Bu hefyd yn goruchwylio cynlluniau trosglwyddo nifer o asedau cymunedol, gan gynnwys Llyfrgell Dyffryn Ogwen a Chanolfan Cefnfaes, gan sicrhau eu bod yn parhau ar gael at ddefnydd cymunedol. Mae hyn yn cyd-fynd â gwaith Partneriaeth Ogwen yn caffael adeiladau'r Stryd Fawr, a hynny at ddibenion masnachol a phreswyl. Ar hyn o bryd, mae 8 cwmni yn rhentu swyddfeydd a siopau gan Bartneriaeth Ogwen yn ogystal â 6 fflat am bris rhesymol i drigolion lleol.

Dros y blynyddoedd mae Partneriaeth Ogwen wedi tyfu ac ar hyn o bryd mae'n cyflogi 21 o bobl leol, Cymraeg eu hiaith. Mae Meleri wedi creu diwylliant gwaith cadarnhaol sy'n cefnogi datblygiad personol a mentora, yn ogystal â chaniatáu i weithwyr fod yn hyblyg i gydbwyso eu cyfrifoldebau y tu allan i'r gwaith. Mae'r diwylliant teuluol hwn wedi gwneud Partneriaeth Ogwen yn gyflogwr cefnogol iawn.

Mae'n amhosib rhestru holl lwyddiannau Meleri dros y ddegawd ddiwethaf. Efallai mai'r etifeddiaeth fwyaf parhaol yw sut y bu iddi strwythuro gweledigaeth Partneriaeth Ogwen o amgylch pedwar piler: Iaith, Cymuned, Economi ac Amgylchedd, a sut y mae wedi llwyddo i sicrhau miliynau o bunnoedd o gyllid ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi'r pedair elfen yma. Mae'r Bartneriaeth a Meleri wedi bod yn barod iawn i fentora a chynghori mentrau cymdeithasol eraill, sy'n edmygu'r hyn a gyflawnwyd yn Nyffryn Ogwen ac yn gobeithio ei efelychu yn eu corneli eu hunain o'r byd.

Er ei bod yn camu lawr o'r swydd fel Prif Weithredwr, bydd Meleri yn parhau i weithio'n llawrydd un diwrnod yr wythnos gyda Phartneriaeth Ogwen i barhau i chwilio am gyfleoedd a phartneriaid, ond bydd hi hefyd yn ymgymryd â thasgau a heriau newydd. Diolchwn o galon am ei gwaith a'i chefnogaeth, a dymunwn y gorau iddi. Rydyn ni'n siŵr na fydd hi'n ddieithryn!

Rydym hefyd yn llongyfarch Donna Watts wrth iddi gamu i rôl y Prif Swyddog Gweithredol, gan ddechrau pennod newydd a chyffrous ar gyfer deng mlynedd nesaf Partneriaeth Ogwen.

## Calendr Llais Ogwan 2025

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Calendr Llais Ogwan 2025 wedi ei gyhoeddi ac ar gael i'w brynu yn y siopau a gan eich gwerthwyr lleol. Mae'r Calendr yn cynnwys lluniau lliw hardd o olygfeydd o amgylch ardal Dyffryn Ogwen gan gyfranwyr lleol unwaith eto eleni.

Hoffem ddiolch eto eleni am gymorth gan Glwb Camera Dyffryn Ogwen i ddenu a dewis y lluniau ar gyfer y Calendr a diolchwn hefyd i Wasg Carreg Gwalch am eu gwaith wrth gysodi ac argraffu'r Calendr.


Bydd y Calendr yn cael ei werthu trwy'r siopau yn bennaf, ond, os oes rhywun yn fodlon gwerthu cyflenwad, mae croeso iddynt gysylltu gyda Mr Walter Williams gan mai ef sy'n gyfrifol am ddosbarthu'r Calendr.

Gallwch gysylltu gyda Walter ar 01248 601167 neu trwy e-bost: waltermenai@yahoo.co.uk.

Bydd y Calendr ar werth am £4.50 eto eleni yn y siopau canlynol:

- Siop Ogwen, Bethesda
- Londis, Bethesda
- Barbwr Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda
- Caffi Seren, Bethesda
- Post Rachub
- Siop yn Llys Y Gwynt
- Siop Na Nog, Caernarfon
- Awen Menai, Porthaethwy

Gellir danfon y Calendr trwy'r post am bris ychwanegol.
Ymholiadau archebion at Now Jones:
01248 600184
post@llaisogwan.com



# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

### Clwb Hanes Rachub

Daeth nifer dda i'r Clwb Criced ar gyfer cyfarfod agoriadol tymor newydd y Clwb Hanes (18/09). Cyflwynwyd ein siaradwraig wâdd, Shân Robinson, gan Gwen Ellis, a thestun ei sgwrs oedd 'Brad y Llyfrau Gleision'. Adroddiad oedd yn y 'Llyfrau Gleision' am gyflwr Addysg yng Nghymru a gyhoeddwyd gan dri Sais – Johnson, Lingen a Symmonds ym 1847. Deuai'r rhain o blith academyddion prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt. Doedd gan yr un ohonynt gefndir ym myd addysg o ran swyddi, doedd gan yr un ohonynt wybodaeth am Gymru na'i thraddodiadau, ac roedd y tri yn eglwyswyr rhonc. Wrth gwrs roedd rhain yn hollol wahanol i drigolion Cymru - gwerinol, Cymraeg eu hiaith – a'r mwyafrif ohonynt yn gapelwyr! Deuai'r gwŷr yma i ddosbarthiadau'r Cymry bach uniaith a gofyn iddynt ddarllen adnodau anodd o'r Beibl yn Saesneg, yn ogystal â gofyn iddynt wneud symiau 'tynnu' yn eu pennau e.e. 4372-2658= a hynny'n gyflym! Wrth gwrs, doedd gan y plant ddim syniad o'r hyn oedd yn digwydd gan nad oeddent yn deall yr iaith. O ganlyniad, pobol Cymru a'r Gymraeg oedd yn cael eu beio gan yr arolygwyr dieithr hyn am ddiffyg safonau'r disgyblion. Rhaid cyfaddef nad oedd yr amodau dysgu yn addas. Yn aml cynhelid ysgolion mewn cytiau ac ysguboriau â'u lloriau'n fwd. Roedd yr athrawon yn aml yn gyn- filwyr oedd wedi eu hanafu, ac heb dderbyn llawer o addysg eu hunain. Ond roedd hyn yn wir am ysgolion mewn rhannau o Loegr a'r Alban hefyd! Y gwahaniaeth mawr oedd y Gymraeg – iaith nad oedd y 'gwybodusion' yma yn gallu ei deall – felly roedd rhaid cael gwared arni! Cafwyd arolwg yn Ysgol (yr Eglwys) Rachub, Ysgol Tŷ'n Twr, a dwy Ysgol Llandygai (bechgyn a merched ar wahân). Roedd plant Ysgol Rachub yn swnllyd a di-drefn, yr athro yn gyn forwr – heb ei hyfforddi. Doedd plant Ysgol Tŷ'n Twr yn gwybod fawr ddim, ac roedd yr athro'n gas iawn. Ond wrth gwrs, roedd ysgolion Llandygai yn cael marciau llawn oherwydd eu defnydd o'r Saesneg a'u cysylltiad cryf â'r Eglwys a theulu'r Penrhyn. Roedd yr ieithwedd a ddefnyddiwyd yn y Llyfrau Gleision yn anfaddeuol! Mae'n dal i frifo hyd heddiw! Mae'r effaith i'w weld hyd heddiw! Cawsom, fel Cymry ein galw'n gelwyddog, yn fudur, yn greulon, yn dwyllwyr, yn ddiog, yn ddrwg ac anfoesol ymhlith nifer o bethau eraill!

Diolch Shân am sgwrs mor bwerus! Mae'n rhyfeddol ein bod yn dal i siarad Cymraeg!

Cofiwch am ein cyfarfod nesaf, Hydref 30ain, pan fydd Mair Read o Gymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd yn trafod Achau Plwyf Llanllechid.




### Taith gerdded Elusen Alzeimers

Mae Rob a Ellen yn dymuno diolch i bawb sydd wedi eu noddi ar eu taith gerdded Llwybr Arfordir Cymru, o'r Gogledd i'r De. Maent wedi casglu dros bedair mil tuag at elusen Alzheimers.

### Cyngor Cymuned Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod Mis Medi ar Nos Iau, 12fed o Fedi, yn Festri Capel Bethlehem, Talybont. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Y Cadeirydd, Y Cynghorydd Lowri Evans.

Diolchwn i Abbie Edwards, o'r Ymddiriedolaeth Cenedlaethol, am ymuno a ni ar gychwyn y cyfarfod i drafod merlod y mynydd. Mwy ar hyn i ddod mis nesaf.

Mae'r gwaith celf yn dod yn ei flaen yn yr hen safle bws, Talybont. Edrychwn ymlaen I weld y brosiect gorffenedig yn fuan.

Diolchwn yn fawr iawn hefyd i Richard Temple Morris am ei waith caled dros y blynyddoedd fel Bugail/Setiwr y mynydd.

## Carmel Llanllechid

### Cydymdeimlo

Yn ystod mis Medi bu farw Mrs Nia Elis-Williams. Rydan ni wedi bod yn gweld ei cholli hi yn yr oedfaon ers tro. Mi fyddai Nia yn ffyddlon yng Ngharmel ar y Sul ac yn cymryd rhan mewn gwasanaethau gyda'i chwaer yng nghyfraith Gaynor fel byddo'r gofyn. Rydan ni'n cydymdeimlo hefo Gruff ei gŵr, Gwion, Guto a Lleucu ei phlant yn ogystal â Gaynor a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bangor.

Rydan ni'n cydymdeimlo hefo Mrs Grace Sewell, Bron Bethel. Bu i Grace golli ei hannwyl fab, Vincent a oedd yn byw yn Nhregarth. Mae Grace yn ffyddlon iawn hefo ni yn y Clwb Gwau ers llawer o flynyddoedd erbyn hyn ac mi rydan ni'n cydymdeimlo hefo hi a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Siân Mererid a Gethin Sherrington ar enedigaeth eu merch fach Rhiannon. Rydan ni'n llongyfarch Marian a Brynmor Jones, Ffordd Coetmor ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf.

Mae hwn yn achlysur hapus iawn ac mi rydan ni'n dymuno pob bendith i'r teulu bach yn Hen Barc .

### Hysbysebion

**Gwasanaeth Diolchgarwch** am y Cynhaeaf yng Ngharmel am 5 o'r gloch bnawn Sul 20 o fis Hydref. Croeso i bawb

**Te Bach.** Ysgoldy Carmel, pnawn Llun 28 o fis Hydref o 2:30 – 4:00. Croeso i bawb.

***Gwasanaethau*** *(am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)*
Hydref 20: Diolchgarwch.
Hydref 27: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
Tachwedd 03: Parchg. John Pritchard.
Tachwedd 10: Oedfa.
Tachwedd 17: Mr. Glyn Tomos.

Ysgol Sul am 10.30.
Clwb Dwylo Prysur ar nos Wener am 6.30.

CROESO CYNNES I BAWB




### Yr Ysgol Sul a Chlwb Dwylo Prysur

Mae'r tymor newydd wedi dechrau ers mis Medi ac mae'r plant a'r bobl ifanc yn paratoi ar gyfer y Gwasanaeth Diolchgarwch am y Cynhaeaf. Mae croeso i unrhyw un ymuno hefo ni o'r newydd.

Rydan ni'n anfon ein dymuniadau gorau i Mrs Helen Roberts, un o athrawon ymroddgar yr Ysgol Sul ar ôl iddi gael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Mae hi'n chwith iawn hebddi hi ar fore Sul ac mae'r plant i gyd yn dweud, "Brysiwch yn eich hôl, Mrs Roberts!"

# YSGOL LLANLLECHID

**Adroddiad Ardderchog – ESTYN**
Llongyfarchiadau i bawb yn Ysgol Llanllechid ar dderbyn adroddiad rhagorol gan arolygwyr ESTYN. Rydym i gyd yn teimlo'n falch iawn o'r adroddiad yma, sy'n tystio i'r holl waith caled a'r safonau arbennig sy'n bodoli yn ein hysgol. Diolchaf o waelod calon i holl staff yr ysgol; beth bynnag yw eu rôl, am weithio fel rhan o dîm medrus a phroffesiynol pob amser. Mae ein dyled yn fawr i bob un ohonynt. Gwelodd yr arolygwyr fod ysgol arbennig iawn yn bodoli yma, a`r materion gweithredu sydd angen sylw yw: parhau gyda'n safonau a'n systemau.

**Ffarwel a Diolch yn fawr**
Diolch o waelod calon i Miss Rhiannon Williams am ei chyfraniad cyfoethog i Ysgol Llanllechid yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bu'n hyfryd cael cyfle i gyd-weithio. Dymuniadau da i ti yn dy gylch newydd gyda'r Cylch Meithrin yn Llanberis, ac fe gadwn mewn cysylltiad. Diolchwn hefyd i Miss Ella New am ei gwaith hefo ni yn Ysgol Llanllechid a phob dymuniad da i'r dyfodol. Yn yr un modd, diolchwn i Miss Ffion Angell am ei rôl hefo disgybl Blwyddyn 6, a phob dymuniad da i tithau.

**Cydymdeimlad**
Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at Gruff Ellis Williams a'r teulu. Mae gennym atgofion da o'r holl gefnogaeth tuag at ein hysgol gan Nia, a chôf byw iawn o Nia (a Gruff) yn dod atom i siarad am Batagonia. Cofion annwyl atoch fel teulu.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Mrs Marian Jones, ar ddod yn nain yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Sian Mererid a'r teulu oll. Newyddion hapus!

**Cofion Cynnes**
Anfonwn ein cofion cynnes at Anti Gillian, yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Llongyfarchiadau Miss Beardsmore**
Llongyfarchiadau i Miss Elin Beardsmore ar lwyddo i ddringo i ben y mynydd uchaf yn yr Affrig sef, mynydd Kilimanjaro. Dechreuodd y daith yr haf yma yn Arusha yn Tanzania, wrth giat Machanil, a dringwyd 5,895 metr! Roedd y plantos yn ysu i gael gwybod sawl diwrnod gymrodd hyn! Wel! Pum diwrnod i fynd i fyny a dau ddiwrnod i ddod i lawr! Camp a hanner! Llongyfarchiadau Miss Beardmore!






**Yr Wyddfa**
Llongyfarchiadau gwresog i ddisgyblion Blwyddyn 6 ar ddringo i gopa'r Wyddfa ym mis Medi. Trwy drugaredd, bu'r tywydd yn ffafriol y diwrnod hwnnw, a chafodd pob un gyfle i fwynhau'r golygfeydd godidog! Diolch i Mr Stephen Jones, Miss Kathryn a chwmni Heicio a Beicio Eryri am eu tywys yn ddiogel.



**Beicio**
Da iawn holl ddisgyblion hynaf yr ysgol ar lwyddo i dderbyn cymhwyster hyfforddiant Beicio Lefel Dau, sy'n golygu eu bod wedi bod yn dysgu rheolau'r ffordd fawr wrth deithio ar hyd lonydd Bethesda. Da iawn chi!

**Llongyfarchiadau Chenai Chicanza**
Llongyfarchiadau i Chenai, ein cyn ddisgybl, ar ei rôl yn actio yn 'Olion' yn Theatr Pontio! Gwych! Talent! Dal ati Chenai!

**Peldroed Blynyddoedd 5 a 6**
Da iawn hogiau am gymryd rhan yn nhwrnament peldroed yr Urdd yn ddiweddar. Pob un wedi rhoi o'ch gorau! Da iawn chi!

**Teithiau Cerdded**
Bu'r dosbarthiadau ar wahanol deithiau cerdded o amgylch yr ardal yn ystod mis Medi, gan gynnwys Cae Boncs, Safle Chwarel Pantdreiniog, Talcen y Deyrnas, Lon Bach Odro ac ati. Braf cael cyfle i droedio ar hyd ein llwybrau, a dysgu am ein milltir sgwar.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Osian Emlyn Blwyddyn 6 ar gael ei ddewis, yn dilyn clyweliad, i chwarae rhan yn y rhaglen 'Under Salt Marsh' ar deledu SKY! Gwych!

**Y Celtiaid**
Hyfryd gweld cymaint o weithgareddau gan ddosbarthiadau Miss Evans a Mrs Humphreys! Rhai o'r uchafbwyntiau: Y Rap Geltaidd ac adeiladau Tŷ Celtaidd anferth tu allan i'r dosbarth!

**P'nawn Agored a Dathlu 70eg**
Rydym yn parhau i gasglu pob math o hen luniau o Ysgol Llanllechid. Anfonwch nhw ar ebost, os gwelwch yn dda i leanne.parry@llanllechid.ysgoliongwynedd.cymru.
Llawer o ddiolch.



**Iolo Goch**
Daeth 'Iolo Goch' i'r ysgol i ddysgu'r plant am fywyd y beirdd a hanes Owain Glyndwr. Cafwyd amser bendigedig yn actio a dysgu am sut le oedd Cymru yn yr oes honno.

## Llandygái

**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
(01248 354280) ionawynbangor@gmail.com

**Diolch**
Mae Llais Ogwan yn ddiolchgar dros ben i Iona Wyn Jones am ei gwaith o werthu'r Llais yn y pentref a'r cyffiniau dros y blynyddoedd diwethaf. Diolch yn fawr Iona ! Rwyt ti'n haeddu seibiant.

### Eglwys Sant Tegai

**Diolchgarwch 2024**
Erbyn i'r Llais ymddangos bydd ein gwasanaeth i ddathlu Diolchgarwch am y Cynhaeaf wedi cymryd lle ar fore Sul, Hydref 13eg. Arweinir yr addoliad gan ein Ficer, y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd.

**Diwedd tymor Eglwys Agored**
Mae'r eglwys ar gau i ymwelwyr tan Pasg 2025 yn dilyn tymor arall yn y cynllun cenedlaethol "Eglwysi Agored". Estynnwn ein diolch i Raymond a Pauline Edwards ac Edmond Douglas Pennant am eu ffyddlondeb i agor a chau drws yr adeilad yn ddyddiol. Wrth gwrs, bydd yr eglwys ar agor ar gyfer ein gwasanaethau.

**Adferiad buan**
Gyrrwn ein dymuniadau gorau i Geraint Gill wrth iddo barhau gyda'i driniaeth ac i'w wraig Helen sydd hefyd o dan law y meddyg. Mae sawl un arall o'r gynulleidfa yn wael neu yn derbyn triniaeth gan gynnwys ein Ficer, y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd. Gobeithio clywed yn fuan eu bod i gyd yn teimlo'n well gyda chofion annwyl atynt i gyd.

**Colled**
Wrth baratoi'r adroddiad hwn ar gyfer y "Llais" daeth y newyddion trist am farwolaeth Arfon Thomas, Llanfairpwll (Waen Wen gynt) ar ôl misoedd hir o gystudd a thriniaeth. Rhoddodd lawer o wasanaeth ffyddlon i St Tegai drwy archwilio ein cyfrifon yn flynyddol. Gyrrwn ein cydymdeimlad diffuant i Eva, ei weddw, ac i'r teulu i gyd yn eu colled.

**Sul y Cofio Tachwedd 10fed 2024**
Unwaith eto eleni bydd cynulleidfa St Tegai yn ymuno â chynulleidfa Santes Fair (Gelli) Tregarth i gymryd rhan yng ngwasanaeth y Cofio. Bydd y gwasanaeth yn dechrau am 9.30 yn Eglwys Gelli ac yn dilyn wrth y giât ar gyfer Seremoni'r Cofio.

**Gwasanaethau**
**Ar y Sul**
Mae gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

**Ar Ddydd Mercher**
Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

**Manylion Cyswllt**
Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen felly gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

# Cyngor Cymuned Llandygai

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o'r Cyngor ar nos Iau, 19eg o Fedi yn rhithiol dros Zoom.

**Murlun Canolfan Tregarth**
Adroddwyd fod Partneriaeth Ogwen wedi bod yn llwyddiannus gyda chais ar gyfer cefnogaeth ariannol fel rhan o gynllun Llewyrch o'r Llechi, Cyngor Gwynedd ar gyfer creu murlun ar Ganolfan Gymunedol Tregarth. Fydd y murlun yn seiliedig ar themâu dreftadaeth (Safle Treftadaeth y Byd), gan bwysleisio ar hanes y hen orsaf a'r pentref, y rheilffordd, twnnel a threnau. Bwriad y prosiect yw dod a'r gymuned gyda'i gilydd i ddathlu treftadaeth leol. Bydd yn codi balchder ac yn addysgu'r genhedlaeth bresennol a'r dyfodol am hanes y pentref. Bydd Partneriaeth Ogwen yn ymweld ag ysgol Tregarth i ofyn am syniadau'r disgyblion, a hefyd yn cynnal noson ymgynghori yn y Ganolfan ar ddydd Iau, 3ydd o Hydref, i geisio cael syniadau a barn y gymuned leol. Mae'r Bartneriaeth yn obeithiol bydd y murlun wedi'i gwblhau cyn diwedd y flwyddyn.

**Gwobrau Ymdrech Ysgol Dyffryn Ogwen**
Llongyfarchwyd 19 o ddisgyblion ar fod yn fuddugol efo'r gwobrau ymdrech yn y Seremoni Gwobrwyo, a gynhaliwyd ar nos Fawrth, 10fed Medi 2024 yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Mae'r Cyngor yn falch iawn o cael noddi'r wobr hon eto eleni.

**Problemau parcio ger Pont Tŵr**
Adroddodd y Cyng. Dafydd Roberts ei fod wedi mynychu'r cyfarfod diwethaf o'r Panel Cyswllt Chwarel Penrhyn, a bod pryderon wedi codi ynghylch a phroblemau parcio. Nodwyd fod y Cyng. Beca Roberts mewn cyswllt â swyddogion y Chwarel am hyn.

**Ail-strwythuro Partneriaeth Ogwen**
Ar ôl 10 mlynedd, mae Meleri Davies yn gadael Partneriaeth Ogwen i weithio fel ymgynghorydd datblygu cymunedol. Bydd yn camu i rôl Prif Weithredwr Interim gyda'r Galeri o fis nesaf ymlaen ond bydd hi hefyd yn gweithio'n llawrydd i'r Bartneriaeth un diwrnod yr wythnos fel Cyfarwyddwr Strategol. Ers ei phenodi yn 2014, arweiniodd Meleri nifer o brosiectau mwyaf y Bartneriaeth yn cynnwys sefydlu cynllun hydro cymunedol Ynni Ogwen ac yn fwy diweddar, datblygiad prosiect Yr Hen Bost. Bydd hi'n awr yn trosglwyddo'r awenau i Donna Watts a'r tîm wrth iddi symud ymlaen i bennod gyffrous newydd. Donna Watts fydd Prif Swyddog Gweithredol y cwmni o hyn allan gan arwain y tîm o dros 20 o staff sy'n gweithio i'r Bartneriaeth. Bydd staff eraill hefyd yn cymryd dyletswyddau ychwanegol ymlaen wrth i Meleri adael y Bartneriaeth.

Hoffai'r Cyngor ddiolch o galon i Meleri am ei holl waith ar hyd y Dyffryn, ac yn dymuno'r gorau iddi hi a phob lwc yn ei phennod newydd. Hoffai'r Cyngor hefyd longyfarch Donna Watts, ar ei rôl newydd fel Prif Swyddog Gweithredol ac yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio yn y dyfodol. Roedd Donna yn cyn-glerc i'r Cyngor, ac felly rydym yn sicr iawn fod y sefydliad mewn dwylo diogel.

Mi fydd y cyfarfod cyffredinol nesaf yn cael ei gynnal ar yr 17eg o Hydref am 18.30 yn y Ganolfan yn Nhregarth.

**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?**

# YSGOL LLANDYGAI

**Croeso**
Croeso nôl i bob un o'n teuluoedd ar ddechrau blwyddyn academaidd arall. Mae gennyn ni lawer o wynebau newydd ac mae pawb wedi setlo'n dda yn eu dosbarthiadau newydd.

Croeso mawr i'r rhai newydd sydd wedi cychwyn gyda ni yn y Meithrin. Mae pob un wedi setlo'n wych erbyn hyn. Hoffwn estyn croeso arbennig iawn hefyd i rieni'r plant sydd yn newydd i deulu'r ysgol.

**Dosbarth Enfys**
'Rydym wedi croesawu nifer o deuluoedd newydd atom ni i Ysgol Llandygai ym mis Medi. Mae pawb bellach yn y Derbyn a'r Meithrin wedi setlo yn dda ac wedi mwynhau dod i adnabod ei gilydd fel rhan o deulu Ysgol Llandygai. Maent wedi bod yn brysur yn creu lluniau ohonynt eu hunain a chymharu lliwiau eu llygaid a maint eu traed. Maent bellach yn mwynhau gweithgareddau yn seiliedig ar stori 'Be na Bw'.

**Dosbarth Gwawr**
Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 wedi mwynhau dod yn ôl at ei gilydd ar ôl gwyliau'r Haf gan symud i ddosbarth newydd. I ddathlu Diwrnod Owain Glyndŵr, buont yn brysur yn creu tariannau a chreu murlun lliwgar o'i faner yn arddull Andy Warhol cyn gorymdeithio y tu allan fel byddin Owain Glyndŵr. Mae'r dosbarth bellach wedi ei rannu yn ddau grwp gyda grwp Onnen yn cychwyn ar sesiynau Ysgol Goedwig. Maent yn mwynhau treulio amser y tu allan gan fwynhau sylwi ar fyd natur a chydweithio'n ofalus gydag offer a deunyddiau naturiol.

**Dosbarth Tirion**
Daeth myfyrwyr o Siapan draw i'r ysgol am brynhawn yn fuan ym mis Medi i rannu hanes am eu diwylliant ac i rannu eu sgiliau calligraphy. Cafodd y disgyblion foddhad mawr yn eu cwmni ac wedi dysgu llawer!



**Croeso arbennig i Ms Delyth Roberts, ein pennaeth newydd, atom i'r ysgol. Rydym yn gobeithio y bydd Ms Roberts yn hapus iawn yn ein plith.**

Mae'r dosbarth hefyd yn ffodus iawn i fod yn derbyn sesiynau rygbi yn wythnosol gan Matt Baston am yr hanner tymor yma.

**Ymddeoliad**
Ar ôl 34 mlynedd anhygoel o wasanaeth ymroddedig, hoffwn fynegi ein diolch dwysaf i Mrs Manon Griffiths am ei hymrwymiad i addysg. Mae ei hangerdd dros feithrin meddyliau ifanc a llunio'r dyfodol wedi gadael marc bythgofiadwy arnom ni i gyd yma yn yr ysgol.

Diolch am y blynyddoedd o waith caled, arweiniad ac ysbrydoliaeth. Mae'r blynyddoedd o gyd-weithio hapus, positifrwydd a charedigrwydd wedi cael effaith barhaol ar bob un ohonom, ac rydym yn hynod ddiolchgar am y doethineb a'r chwerthin a ddaethoch i'n gweithle bob dydd. Rydym yn dymuno pob hapusrwydd sydd gan ymddeoliad i'w gynnig.

Cyn yr Haf, cawsom brynhawn arbennig yn dathlu gyda chyn-athrawon a ffrindiau'r ysgol. Dymunwn bob llwyddiant a hapusrwydd i chi. Diolch unwaith eto am bopeth.



**Ysgol Goedwig**
Mae'r sesiynau Ysgol Goedwig ar dir yr ysgol wedi cychwyn acw a'r tymor yma, tro grŵp Onnen o ddosbarthiadau Enfys a Gwawr oedd hi i fwynhau sesiynau'r Ysgol Goedwig. Cawsant cyfle i ddefnyddio llif i dorri coed er mwyn creu cadwyni unigryw. #awyr agored #sgiliau newydd #dyfalbarhau



**Dathlu Diwrnod Owain Glyndŵr**
Cafodd pob dosbarth ddiwrnod gwych yn dathlu diwrnod Owain Glyndŵr 'leni. Diolch i chi blantos am eich ymdrechion.

Buont yn brysur iawn yn gwneud gweithgareddau amrywiol drwy gydol y dydd. Dyma lun o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 dosbarth Tirion.

Cysylltwch â **Neville Hughes** (Ffôn 600853) nev_hughes@btinternet.com

# Rhiwlas

**Annes Glynn,** Bwthyn Cefn Braich, Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com
(01248) 351015

**Clwb Ieuenctid**

Ar ôl bwlch o rai blynyddoedd mae Clwb Ieuenctid ar fin cychwyn yn y Neuadd – newyddion gwych i bobl ifanc y pentref! Cyngor Gwynedd sy'n trefnu'r staffio ac mae'r Clwb yn cael ei ariannu gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen. Y bwriad yw cynnal y Clwb ar nosweithiau Mawrth rhwng 7 a 9. Bydd yn agored i rai sy'n ddisgyblion ysgol uwchradd a bydd dwy weithwraig o leiaf yno i arolygu. Fydd dim Clwb yn ystod gwyliau ysgol. Bydd mwy o newyddion am y datblygiad cyffrous yma yn rhifyn Tachwedd y 'Llais'.

**Wyneb newydd i lôn Bron y Waun**

Mae trigolion stad Bron y Waun wrth eu boddau ar ôl i ran o'r ffordd yno gael ei tharmacio a'i wneud yn lle diogelach. Bu'r Cynghorydd Elwyn Jones yn pwyso am gael gwneud y gwaith ers tro byd ac, o'r diwedd, mae ei waith – a'i amynedd! – wedi dwyn ffrwyth. Diolch, Elwyn.

**Clwb Rhiwen**

Wedi seibiant ym mis Awst, ail ddechreuodd y Clwb ar brynhawn Mercher, Medi 18, gyda phrynhawn i ddiolch i Ann a Dilys am eu hymroddiad a'u hymrwymiad i Glwb Rhiwen dros y 18 mlynedd diwethaf. Mae eu hymdrechion diflino a'u harweinyddiaeth wedi creu amgylchedd cynnes a chroesawgar lle mae aelodau'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, ac mae hyn yn dangos yn y cynnydd fu yn nifer yr aelodau dros y blynyddoedd. Cyflwynwyd tusw o flodau ac anrhegion i'r ddwy i fynegi ein diolch a mwynhaodd bawb gacen i ddathlu'r achlysur.

Ar Dachwedd 20 bydd prynhawn i greu 'Gardd mewn Cwpan De'. Edrychwn ymlaen at y sialens arbennig yma lle fydd aelodau yn cael y cyfle i greu eu gardd fach eu hunain.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno â Chlwb Rhiwen rydym yn cyfarfod ar y trydydd prynhawn Mercher o'r mis am 2 o'r gloch yn y Neuadd. Croeso cynnes iawn ichi!



## Capel Shiloh Newydd, Rhiwlas - Gwasanaethau'r Sul

Dyma fanylion y gwasanaethau sydd i'w cynnal yn y Neuadd am 10 o'r gloch ar y Suliau canlynol:

**Hydref 20** – trefniant lleol;
**Tachwedd 10** – gwasanaeth dan ofal Hugh Pritchard.

Croeso cynnes i bawb.



**Rhoi trefn ar 150 mlynedd o hanes!**

Fe fu'n gyfnod eithriadol o brysur yn ddiweddar i Cadi Iolen, Cae Glas, curadur Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis. Mae'r Amgueddfa ar fin cau ei drysau dros dro ar ôl derbyn grant sylweddol i adnewyddu'r adeilad ac i wella'r profiad i ymwelwyr. Bydd yn ailagor yn 2026 a bydd yn cynnwys caffi newydd, gofod arddangos a chanolfan addysg a dehongli. Ond cyn hynny, a chyn i'r adeiladwyr ddechrau ar eu gwaith, mae gofyn symud a diogelu cannoedd o eitemau a gasglwyd dros y blynyddoedd fel y gall yr Amgueddfa ddal ati i adrodd hanes y chwarelwyr a'r diwydiant bryd hynny. Mae llawer iawn o eitemau heb eu symud ers i'r chwarelwyr olaf roi eu celfi o'r neilltu pan gaeodd y chwarel yn 1969.

Mae'n waith manwl ac mae gan Cadi ddau gynorthwyydd i'w helpu, sef Osian Thomas a Mathew Williams. Symud o un ystafell i'r llall yn eu tro sydd raid gan gofnodi, labelu a phecynnu'r eitemau'n ofalus.

Bydd gofyn cwblhau'r gwaith arbenigol yma erbyn dechrau Tachwedd. Gobeithio y cei di rywfaint o gyfle i roi dy draed i fyny am bwl wedyn, Cadi!

**Londis**
BETHESDA
01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos




Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

# YSGOL RHIWLAS

**Croeso nôl!**
Braf iawn yw croesawu'r disgyblion a'r staff yn ôl i'r ysgol ar gyfer blwyddyn newydd o ddysgu. Croeso arbennig i'r disgyblion newydd sydd yn cychwyn yn y dosbarth Meithrin eleni. Rydym yn edrych ymlaen at eich gweld yn tyfu ac yn datblygu ac yn dod yn rhan o deulu Ysgol Rhiwlas.

**Prosiect Sero Net Gwynedd**
Rydym wedi bod yn falch o groesawu Mr Osian Rowlands i'r ysgol dros yr wythnosau diwethaf. Mae'n gweithio fel Swyddog Ynni Cymunedol gyda menter gymunedol 'Datblygu Egni Gwledig', ac yn dod i'r ysgol i'n dysgu am 'Brosiect Sero Net Gwynedd'.

Nod Prosiect Sero Net yw helpu Gwynedd i ymgyrraedd at fod yn sero net gan helpu trigolion, waeth pa fath o dai sydd ganddynt. Mae Mr Rowlands wedi bod yn dysgu'r disgyblion am sut mae'n bosibl byw yn fwy gwyrdd a lleihau gwastraff ynni.




**Cyngor Ysgol**
Llongyfarchiadau mawr i aelodau newydd y 'Cyngor Ysgol'. Grŵp o ddisgyblion yw Cyngor Ysgol, wedi'u hethol gan eu cyd-ddisgyblion i gynrychioli eu barn a chodi materion gydag uwch-reolwyr a llywodraethwyr yr ysgol. Byddant hefyd yn trafod unrhyw faterion sydd wedi codi, syniadau am sut i wella'r ysgol a threfnu unrhyw ddigwyddiadau. Rydym yn edrych ymlaen at glywed eich syniadau dros y flwyddyn!

**Nofio**
Mae llawer o gynnwrf yn yr ysgol ar foreau Iau .... pam tybed?! Wel bob bore Iau mae'r disgyblion yn mynd am wersi nofio i Ganolfan Byw'n Iach, Bangor. Dros gyfnod o ddeg wythnos byddant yn magu hyder yn y dŵr ac yn datblygu sgiliau nofio.

**Taith pentref**
Cafodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen fore braf o grwydro yn ystod mis Medi. Cawsant fynd ar daith gerdded o amgylch y pentref er mwyn dod i adnabod eu cynefin yn well. Braf oedd gweld pawb yn codi llaw a chanu corn ar y plant wrth basio!




**Masnach Deg**
Yn ystod wythnosau cyntaf y tymor mae'r disgyblion wedi bod yn dysgu am 'Fasnach Deg'.

Mae Masnach Deg yn fudiad byd-eang sy'n rhoi pobl a'r blaned o flaen elw. Pan fydd cynhyrchwyr yn derbyn pris teg am eu nwyddau mae'n arwain at well amgylchedd gwaith a gwell ansawdd bywyd iddynt hwy a'u teuluoedd. Mae Masnach Deg yn cymryd agwedd gyfannol trwy gysylltu cynhyrchwyr a defnyddwyr trwy wneud cadwyni cyflenwi yn fwy eglur a chynnig gwell dewisiadau ar gyfer siopa'n gyfrifol.

Mae Masnach Deg yn cefnogi ei phartneriaid i gymryd perchnogaeth o'u busnes ac i rymuso gweithwyr i reoli eu dyfodol eu hunain a chydweithio'n ddemocrataidd. Pan fydd hyn yn digwydd, mae cynhyrchwyr yn fwy tebygol o ddewis datblygu arferion ffermio cynaliadwy a all helpu i liniaru'r difrod parhaus a achosir gan newid hinsawdd. Mae Masnach Deg hefyd yn cefnogi prosiectau datblygu cymunedol, addysg ac iechyd a hawliau dynol i bobl yn fyd-eang.

Un o uchafbwyntiau'r disgyblion oedd cael blasu enghreifftiau o fwydydd Masnach Deg!


SIOP OGWEN
yn cynnig gwasanaeth
CLIC A CHASGLU
Llawer o Nwyddau Newydd gan Grefftwyr Newydd wedi cyrraedd y siop
Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar y ffôn
07394 905881
neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu
CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL



Dilynwch Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**

# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Priodas**

Llongyfarchiadau mawr i Gwenno Eliza Kervegant, merch Ffion a Dominic Kervegant , Tan Dderwen, Tregarth, ar ei phriodas ag Alex Warbuton yn Nant Gwytheyrn ar Orffennaf 20. Byddant yn gwneud eu cartref yng Nghas-Gwent. Pob dymuniad da i chi eich dau.

**Profedigaeth**

Anfonwn ein cydymdeimlad i Helen Wyn Jones, Bro Derfel , ei nith Susan, a'r holl deulu yn eu profedigaeth o golli ei chwaer Mair Eluned Williams (Mary) yn Bedford a hithau'n 96 oed. Roedd Mair yn wreiddiol o Dalybont ond wedi byw a gweithio yn Bedford ers saithdeg chwech o flynyddoedd. Bu'r angladd yn Bedford ar Hydref 1.

**Merched y Wawr Cangen Tregarth**

Braf iawn oedd cael cychwyn tymor newydd y gangen Nos Lun, Medi 9 yn Festri Capel Shiloh Newydd , Tregarth. Diolch o galon I'r swyddogion eto eleni am baratoi rhaglen ddifyr. Diolch i'r llywydd Carol Jones, yr ysgrifennydd a'r trysorydd Christine Morris Jones a Delyth Jones am eu gwaith. Anfonwyd cofion at rai o'r aelodau na allent ddod i'r cyfarfodydd oherwydd salwch , sef Eleanor Holland ac Anwen Griffiths, a rhoddwyd croeso i aelod newydd a ymaelododd eleni. Daeth Mark Roberts, ei briod Elaine a'i gi tywys Forest, atom o Fethesda, ac roedd yn ddifyr iawn gwrando arno'n sgwrsio'n ardderchog am yr arweiniad a'r gofal mae'n ei gael gan Forest (wedi dod yn wreiddiol o Forest of Dean )

Cawsom ei hanes yn gyrru car cyflym gyda gyrrwr profiadol wrth ei ochr a nifer o anturiaethau dewr eraill a wynebodd ers iddo golli ei olwg.

Diolchodd Alwenna Puw iddo am gyflwyno ei hanes yn naturiol a diddorol a pharatowyd lluniaeth hyfryd gan rai o'r aelodau.

Bydd y gangen yn cyfarfod eto Nos Lun, Hydref 7 yn Festri capel Shiloh Newydd am 7.30 pan ddaw Menna Gilbert i sgwrsio ar y testun 'Gwisgoedd drwy'r degawdau '. Croeso cynnes i aelodau newydd a chyn aelodau.

**Dwy Brofedigaeth**

Ar Fedi 14, yn Ysbyty Maelor, Wrecsam, bu farw Catherine Jones, gynt o Bryn Cul, Penarbronydd, Tregarth a hithau'n 91 oed. Roedd Catherine yn chwaer i'r diweddar Joe , Bryn Cul, yn fam i Andrea a'r diweddar Nia, ac yn Nain a Hen Nain annwyl iawn. Anfonwn ein cydymdeimlad fel ardal at ei theulu.Bu ei hangladd yng Nghapel Shiloh, Tregarth, Dydd Llun, Hydref 7 am 11 o'r gloch.

Trist oedd clywed y newyddion am farwolaeth Yr Athro Iolo Wyn Williams, Y Fenallt, 40 Tal y Cae, Tregarth, yn Ysbyty Gwynedd ar Fedi 20 , yn 90 oed. Bu Iolo yn bennaeth yr Adran Addysg ym Mhrifysgol Bangor am flynyddoedd ac roedd yn athro mawr ei barch. Roedd yn enedigol o'r Bermo.

Roedd ef a'i briod, y diweddar Nesta, wedi symud i fyw i Cae Garnedd, Penrhosgarnedd yn y blynyddoedd diwethaf.

Cydymdeimlwn gyda'r bechgyn Rhys a Guto, eu gwragedd Julia a Iona, ei wyrion Michael, Megan, Elia, Elgan a'r diweddar Ffion , a'r holl deulu yn eu profedigaeth.

Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor ar Hydref 18.

**Ffotograffydd Dogfen o Sling**

Ar y rhaglen 'Beti a'i phobl' ym Mis Medi, braf iawn oedd gwrando ar Beti George yn sgwrsio gyda'r ffotograffydd byd enwog, sef Rhodri Ellis Jones neu o roi ei enw llawn Rhodri Caradog Ellis Jones. Mae Rhodri yn fab i'r diweddar John Ellis Jones a Renee Ellis Jones ac yn frawd i Angharad a Catrin ac erythrocytes i Gruff. Un o Lanrwst oedd ei dad, a'i fam yn hannu o Luxembourg ond wedi'i magu yn yr Almaen. Roedd eu cartref yn Sling yn dairieithog, sef Cymraeg, Saesneg ac Almaeneg. Addysgwyd Rhodri yn Ysgol Llandygai ac Ysgol Dyffryn Ogwen ac yn syth wedi cwbwlhau ei addysg ym Methesda gadawodd ei gartref yn Sling a mynd i deithio'r byd.

Mae Rhodri wedi cartrefu yn Bolonia, yn yr Eidal, a hynny ers deugain mlynedd

bellach. Mae wedi gweithio fel ffotograffydd dogfen ar draws y byd, yn Affrica,

Albania, Cuba, Nicaragua ac El Salvador yn ogystal a dogfennu pobol leiafrifol yn China. Mae ei waith i'w weld mewn papurau newydd , pamffledi a llyfrau mewn llawer o wledydd y byd.

Mae Rhodri bellach yn ddinesydd yn yr Eidal ac ar raglen Beti mae'n sgwrsio am ei fywyd anturus a pheryglus ar adegau, yn arbennig wrth ddogfennu rhyfel a thrais mewn gwledydd tramor.

Yn Storiel, Bangor, Dydd Mawrth, Medi 24, bu'n sôn ac yn dangos y gwaith eithriadol o drawiadol o wahanol wledydd y byd, ac mae ei waith dogfennu oedd yn agoriad llygaid o gofio am eu cefndir.

Bydd Rhodri eto yn Storiel , Bangor, ar Hydref 10 am 5.30, lle bydd yn cyflwyno ei lyfr newydd o ffotograffau , 'Cofion', sef ei deyrnged i'w dad y diweddar John Ellis Jones, darlithydd yn Adran y Clasuron, ym Mhrifysgol Bangor ac yn archeolegydd o fri yn arbennig yng Ngwlad Groeg.

Mae'r llyfr hefyd yn cynnwys barddoniaeth gan Angharad Price , Manon Steffan Ross, Steve Eaves, John V. Morris a'r diweddar Iwan Llwyd a Dylan Thomas a rhagair gan Myrddin ap Dafydd. Mae'n gyfrol eithriadol o hardd ac fe'i cyhoeddwyd gyda chyfraniad caredig Cronfa Bangor, Cronfa Alumni Prifysgol Bangor ac Adran Glasurol Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Cymru.

Argraffwyd gan Wasg Carreg Gwalch, Llanrwst a'i phris yn £30.

**Nain a Taid**

Llongyfarchiadau i Steve a Rhian Sherrington 'Llidiart y Dwr' am ddod y nain a thaid i Rhiannon Urien, merch fach a anwyd i'w mab Gethin a'i wraig Siân, Hen Barc, Bethesda.

**Capel Shiloh Newydd Tregarth**

Oedfaon am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.

| | |
|---|---|
| Hydref 20 | Huw Pritchard, Llangefni |
| Hydref 27 | Geraint Roberts , Llandegfan |
| Tachwedd 3 | Ffion Rowlinson, Bethesda |
| Tachwedd 10 | Eurfryn Davies, Llandegfan |
| Tachwedd 17 | Dr Ian Morris |
| Tachwedd 24 | R.O. Jones, Gaerwen |

Anfonwn ein cofion fel aelodau at Anwen Griffiths, Dwygyfylchi, gynt o Sling, sydd wedi cael llawdriniaeth cataract yn ddiweddar a dymunwn wellhad llwyr a buan pan gaiff driniaeth feddygol eto yn yr wythnosau nesa. Cofion annwyl atat Anwen.

Cofiwch bawb am y Drws Agored yn Shiloh bob bore Gwener o 10 tan 12 o'r gloch.

Ar Dachwedd 24, bydd Cymanfa Garolau yn Shiloh am 7.30. Cefin Ronerts, Pentir, fydd yn arwain gyda'r unawdydd Meinir Wyn Roberts, Caernarfon, a Chor Glanaethwy yn cymeryd rhan. Bydd elw'r Gymanfa yn mynd at atgyweirio Eglwys Sant Cedol, Pentir. Nodwch y dyddiad!



**Priodas a gair o ddiolch**

Dymuna Hannah a Lewis ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu priodas Mis Mai yn Talbont Hall, Cricieth. Treuliwyd y mis mel yn Japan ac mae'r ddau wedi gwneud eu cartref yn Tunbridge Wells, Swydd Caint. Llongyfarchiadau i chi eich dau.

Mae Hannah yn ferch i Amanda ac Andrew Taylor, gynt o Tal y Cae, Tregarth.

# Iaith Pesda
### gan Mary Jones

Cafwyd dau air arall gan Nel Williams, Carneddi, sy'n gyfarwydd â llawer o eiriau ac ymadroddion yr ardal. Un ydy 'cnap' am dda-da. Y llall ydy 'slempan', sef 'molchad brysiog ac annigonol – 'llyfiad cath' o folchad.

**Ambell Air ac Ymadrodd**

**ar sgowt.** Mynd o gwmpas i weld beth sy'n digwydd – "Es i ar sgowt i weld be' o'dd 'mlaen 'na."

**sgint.** Heb ddim pres o gwbl; 'heb 'r un ddimai coch y delyn' – "Swn i'n rhoi menthyg pres iti, ond dwi'n sgint."

**ffadan beni.** Rhywbeth di-werth ydy ystyr hwn. Ffyrling ydy 'ffadan' a daw 'beni' o 'penny' – "Ches i 'run ffadan beni gyno fo."

**gwrthio.** Dyma ddwedwn ni am 'gwthio' – "Fuo raid inni wrthio'r car am nad o'dd o'n tanio." Byddwn hefyd yn dweud 'drost' am 'dros'.

**cnwd o eira.** Eira'n drwchus ar ôl cawod drom.

**lafatri.** Mae gynnon ni nifer o enwau am y toilet – 'tŷ bach' (adeilad y tu allan yn wreiddiol – weithiau ym mhen draw'r ardd, yn y cowt y tu ôl i'r tŷ neu drws nesa' i'r sied); 'lle chwech'; 'cyfleusterau'. Hyd yn ddiweddar, byddai'r gair 'lafatri' i'w glywed. Dywediad am fynd i'r lle chwech a aeth allan o ddefnydd ydy 'Dw i isio mynd i dalu ceiniog'.

**babi mam.** Sylw angharedig arall i ddigrifio hogyn ofnus ac ansicr – "Mae o ofn ei gysgod. Mae o'n rêl babi mam." Un arall fyddai **babi sws**.

**tolc.** Pant wedi ei greu gan ergyd neu bwysau – **"**Dw i 'di ca'l tolc ar ochr 'y nghar." Hefyd tolc ariannol – "Mi gawson ni dipyn o dolc pan dda'th y bil am drwsio'r to."


**galifantio.** Daw'r gair hwn o'r Saesneg 'gallivant, a'i ystyr o ydy mynd i'r fan a'r fan i gael hamddena a chael pleser – "Sgwn i i lle maen nhw'n mynd i galifantio heno?"

**ar gyfar.** Mae dwy ystyr i hwn. Un ydy 'er mwyn' – "Ar gyfer gwaith sgwennu mae'r llyfr yna." Yr ystyr arall ydy 'cyferbyn' – "Ro'dd hi'n arfar ista ar ein cyfar ni yn y capal."

**wedi mynd yn sgrech.** " Aeth yn sgrech arnaf fi i gyrraedd y cyngerdd ar amser." Sef bod yn brin o amser a gadael pethau tan y munud diwethaf.

**bol uwd**. Dyma ddywedir yn aml wrth blentyn os y bydd yn bwyta'n dda neu fwyta gormod.

**cricmala.** Cwyn gan lawer pan maent yn mynd yn hyn yw fod y 'cricmala' wedi cael gafael arnynt. Ond tybed beth yw ystyr y gair. Wel rydym yn hoff iawn o gywasgu geiriau a'u dweud yn ein ffordd ein hunain,



**fath â riwbob wedi rhedag.** Dyma ddwedir am rywun ifanc sydd wedi tyfu'n dal yn sydyn. Dywediad arall heb fod yn garedig am rywun tal ydy ei fod o neu hi 'fel polyn lein'. Os bydd rhywun byr wrth ymyl un tal, cyfeirir atyn nhw fel 'polyn lein a peg'.

ac felly y gwnawn gyda'r gair yma sy'n gywasgiad o grud cymalau, sef aflwydd ar gymalau'r corff. Rwy'n siwr bod mwy o eiriau fel hyn, beth am i chi gysylltu os cofiwch rai ohonynt. Anfonwch ataf, neu dowch ataf os gwelwch fi.

Mary Jones 42 Erw Las, Bethesda
LL57 3NN, Ffôn 07443047642
maryeds@hotmail.co.uk

# Gair neu ddau John Pritchard

## STRYGL

Dwi ddim yn gwbl siŵr be faswn i wedi ei ddeud. Yn amlwg, ateb byr a ddisgwylid, a llwyddodd y rhan fwyaf i ddweud llawer mewn cyn lleied ag ugain eiliad neu lai. Os ydych chi'n gyfarwydd ag *Youtube* mi fedrwch chi weld yr atebion amrywiol ar sianel '**EBCPCW'.** **(**Bydd rhai ohonoch yn deall mai sianel Eglwys Bresbyteraidd Cymru ydi honno.) Y cwestiwn syml a ofynnwyd oedd, 'Beth yw gweddi i chi?'

Y ddau air olaf ydi geiriau allweddol y cwestiwn: 'i chi'. Mae gan y Beibl ddigon i'w ddweud am weddi. Ceir rhwng ei gloriau enghreifftiau o weddïau cyfoethog a offrymwyd mewn llu o wahanol amgylchiadau; rhai ohonyn nhw'n fyr a syml, ac eraill yn hwy a dwys. Ysgrifennwyd cannoedd o gyfrolau ar weddi, ac mae gen i sawl un ar fy silffoedd llyfrau. Mi fedrwn sôn wrthych am rai o weddïau mawr y Beibl. Mi ddylwn i fedru sgwennu colofn neu draethawd ar y pwnc. Ond nid dyna ofynnwyd amdano yn y gyfres fach o gyfweliadau, ac mae'r ddau air bach – 'i chi' – yn f'anesmwytho.

Dwi'n gwybod be' ddylwn ei ddeud, a hyd yn oed be' ddisgwylid i mi ei ddeud. Dwi'n gwybod be' allwn ei ddeud. Ond rhywsut, mae'r ddau air yn brathu. Nid 'Beth yw gweddi?' oedd y cwestiwn ond 'Beth yw gweddi *i chi*?' A'm hateb syml a gonest fyddai, 'Strygl'.

Mae gweddi'n fraint; mae'n rhwydd; mae'n syml. Wrth gwrs ei bod felly. Ond mae hefyd yn anodd; yn ymdrech; yn frwydr. Mewn gair, i mi beth bynnag, mae'n strygl. Nid yn gyntaf oherwydd amgylchiadau. Nid oherwydd unrhyw bryderon ynghylch ei gwerth. Ac yn sicr nid oherwydd unrhyw amheuon ynglŷn â gallu neu barodrwydd Duw i wrando. Mae'n strygl oherwydd fy ngwendid a'm methiant i weddïo fel y dylwn. Dwi'n gwybod be' ddylwn ei neud, a hyd yn oed be' dwi'n dymuno'i neud. Dwi'n gwybod mai gweddi sy'n fy ngalluogi i ddiolch i Dduw a'i ganmol, i ofyn ac i geisio ganddo, i gydnabod angen ac i gyffesu bai. Dwi'n gwybod ei bod wrth wraidd fy mherthynas â Duw ac na fedraf wneud hebddi.

Dwi'n gwybod bod gweddi'n felys; yn fywiol; yn fwyd a diod; ac yn fwy o lawer nag y medraf obeithio'i disgrifio na'i dadansoddi. Ond wedi dweud popeth arall, mae gweddi, i mi o leiaf, yn strygl am fy mod yn blentyn mor anufudd i Dduw; am fy mod mor amharod i droi ato; ac am fy mod yn fy ffolineb a'm pechod mor dueddol o beidio â galw arno yng nghanol amrywiol amgylchiadau bywyd.

O gofio hynny ac o'm nabod fy hunan, y rhyfeddod ydi mod i'n gweddïo o gwbl. Y gwir ydi mai dim ond trwy ras yr ydw i'n dal i stryglo. Heb ras, mi fyddwn wedi hen roi heibio'r ymdrech a'r arfer; mwy na thebyg na fyddwn erioed wedi cychwyn. Gras sy'n fy ngalluogi i ddal ati, a gras sydd hefyd yn fy ngalluogi i werthfawrogi a dotio at atebiad pedwar gair un o'm ffrindiau i'r cwestiwn: 'Sgwrsio efo Iesu Grist'. Fedrwch chi ateb yn well na hynny?

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

### Bont Bach ar ei newydd wêdd

Dydw i ddim yn amau y bydd pobl yn dod o bell ac agos i weld campwaith yr arlunydd ddawnus Elen Williams, sydd wedi llwyddo i droi arhosfan bws ddigon di-lun yn wrthrych hardd. Cyn cychwyn ar y gwaith, cafodd Elen gymorth rhai o blant y pentref i benderfynu ar gynnwys y llun. Maent wedi disgwyl yn eiddgar am y canlyniad ac, yn sicr, chawn nhw mo'u siomi.

Mae aelodau'r Cyngor, noddwyr y prosiect, yn gobeithio y bydd hyn yn esgor ar fwy o weithgareddau i'r plant yn y dyfodol. Yn y cyfamser, mae'n braf meddwl bydd pawb yn Nhalybont yn gwybod ble'n union mae Bont Bach. Diolch, Elen!

### Penblwydd arbennig

Llongyfarchiadau i Eleri Pritchard a ddathlodd ei phenblwydd yn 21 ym mis Medi. Pob bendith, Eleri, a hwyl fawr iti ar flwyddyn olaf dy gwrs grâdd yn Wrecsam.

### Croeso'n ôl

Croeso i 5 Bro Emrys i Jean Hughes sydd wedi dychwelyd i Dalybont ar ôl cyfnod o bum mlynedd yng Nghyffordd Llandudno. Byddai Jean a'i diweddar ŵr, Derek, yn byw yn rhif 3 yn y pentref. Gobeithio y byddi'n hapus iawn, Jean. Mae dy deulu-yng-nghyfraith a ffrindiau i gyd yn falch o'th weld yn ôl yn ein plith.

### Colledion

Mae llif naturiol y blynyddoedd yn mynd â'n ffrindiau bore oes oddiwrthym, gan adael teimlad o wacter bob tro.

Yn ystod mis Awst bu farw Margaret Wynne. Roedd hi'n ferch i Goronwy a Glenys Jones, Tŷ Mawr, ac yn chwaer annwyl i Dyfrig. Mae blynyddoedd lawer ers i Margaret fyw yn Nhalybont, ond mae ei ffrindiau'n hoff iawn o ddwyn i gôf ddyddiau difyr eu hieuenctid, pan oedd y pentref yn lawer llai ei faint a phawb yn adnabod ei gilydd.

Yna, ar y 15ed o Fedi, bu farw Mair Eluned yn 96 oed. Hi oedd yr hynaf o blant Tai Newyddion; yn ferch i Nel a Wil Jones ac yn chwaer annwyl iawn i Helen Wyn (Tammy Jones) a'i diweddar brodyr, Eifion, Benny, Wil, Now (Hogia Llandegai) ac Alun.

Roedd Mair wedi byw dros y ffin ers iddi briodi, ond roedd y Gymraeg yn dal yn gryf ar ei gwefusau, a byddai'n morio canu hyd y diwedd.

Estynnwn gydymdeimlad dwysaf at y ddau deulu yn eu galar.

Hefyd, rydym yn anfon ein cydymdeimlad at Eva Thomas yn Llanfairpwll yn dilyn ei phrofedigaeth lem o golli ei hannwyl briod, Arfon ym mis Medi. Un o Dolhelyg, Talybont ydi Eva yn wreiddiol, ac 'rydym yn meddwl amdani ar yr adeg trist yma yn ei hanes.

## Capel Bethlehem

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*

| | |
|---|---|
| Hydref 20: | Parchg. Gerallt Lloyd Evans. |
| Hydref 27: | Parchg. Glenys Jones. |
| Tachwedd 03: | Parchg. John Pritchard. |
| Tachwedd 10: | Mr. Richard Morris Jones. |
| Tachwedd 17: | Parchg. Eric Jones. |

Croeso cynnes i bawb.

# Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,** Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB (01248 601318) carys16@hotmail.com

## Eglwys St. Cedol

### Clwb Crefftau

Bydd Clwb Crefftau Cedol, sef Dwylo Dawnus yn cyfarfod ar yr 2ail a'r 4ydd prynhawn Gwener o bob mis am 2yh. Dewch a'ch crefft i gael hwyl, panad a sgwrs.

### Te Bach

Mae eglwys St.Cedol yn cynnal eu Tê Bach ar brynhawn Mercher cyntaf o'r mis am 2 o'r cloch. Bydd y Tê Bach nesaf ar y 6ed o Dachwedd. Mae croeso cynnes i chwi ymuno a ni am brynhawn hwyliog gyda phanad, teisan a sgwrs.

### Hamper Misol

Rydym yn cynnal Raffl o Hamper Misol ar themau gwahanol bob mis er mwyn codi arian i gynnal yr Eglwys. Enillydd Hamper Mis Medi oedd James Frith, yn roddedig gan Nia.

Hoffwn ddiolch i'r aelodau, ein teuluoedd a'n teuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl, hefyd i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod mor hael yn eu rhoddion o'r hamperi. Diolch o galon i chi gyd.

### Ffair Nadolig

Bydd Eglwys St. Cedol yn cynnal Ffair Nadolig eleni a'r ddydd Sadwrn y 23 Tachwedd am 1.30yp yn Y Ganolfan, Glasinfryn. Bydd amrywiol stondinau a phanad a mins peis. Croeso cynnes i chwi ymuno â ni.

### Cymanfa Garolau

Bydd Cymanfa Garolau yn cael ei chynnal ar 24 Tachwedd am 7.30yh yng Nghapel Shiloh, Tregarth, gyda Chôr Glanaethwy a'r unawdydd Meinir Wyn Roberts, soprano. Bydd yr elw er budd Cronfa Atgyweirio Eglwys St. Cedol.

### Gwasanaethau'r Sul

Mae Gwasanaeth bob bore Sul am 9.30yb. Mae croeso cynnes i bawb ymuno yn y gwasanaethau, gyda phanad a sgwrs i ddilyn.

### Manylion cyswllt

Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall yn ymwneud a'r eglwys cysylltwch a'r Parch. Ddr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521. Cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu gael sgwrs.

# YSGOL TREGARTH

### Croeso

Dyma ni nôl ar gychwyn blwyddyn ysgol newydd ac mae'n braf dweud fod pawb wedi setlo'n arbennig o dda yn eu dosbarthiadau newydd ac mae llawer o wynebau newydd yma yn yr ysgol.

Mae plant bach y dosbarth meithrin wedi setlo'n wych ac yn mwynhau dod i'r ysgol bob prynhawn.

Rydym wedi bod yn ffodus i gael nifer o blant newydd yn ymuno mewn amryw o ddosbarthiadau drwy'r ysgol – croeso cynnes iddyn nhw a'r rhieni hefyd.

### Taith gerdded

Bu dosbarth Elidir Fawr ar daith gerdded o amgylch y pentref yn ddiweddar fel rhan o'r thema 'Tai a Chatrefi'. Bwriad y daith oedd dod i adnabod y gwahanol fathau o dai sydd yn y pentref a dysgu mwy am eu nodweddion. Dyma gychwyn braf i thema newydd a chyfle hefyd i ddysgu mwy am ein pentref.

# YSGOLION ABERCASEG A PHEN-Y-BRYN

**Croeso**
Croeso mawr i blant bach newydd y Meithrin, Ysgol Abercaseg a'r criw sydd wedi trosglwyddo i Flwyddyn 3 Ysgol Pen-y-bryn! Mae pob un wedi setlo'n wych erbyn hyn.




**Diwrnod Dathlu Roald Dahl Ysgol Penbryn!**
Cawsom ddiwrnod gwerth chweil yn gwneud bob math o weithgareddau megis chwarae rôl , tynnu lluniau, gwrando ar straeon a llawer mwy! Diolch i bawb am wneud yr ymdrech i wisgo fyny fel cymeriadau o'r llyfrau, yn blant ac yn staff wrth gwrs! Rydych i gyd yn arbennig!

**Chwaraeon**
Mae'r disgyblion wrth eu bodd yn cael blas ar wahanol chwaraeon y tymor yma. Mae disgyblion Dosbarth Glyder yn datblygu eu sgiliau rygbi gydag Osian, tra mae Dosbarth Tryfan ac Elidir yn magu hyder a gwella eu sgiliau nofio ym Mangor yn wythnosol.



**Bore Coffi Macmillan**
Roedd Ysgol Penybryn yn llawn ysbryd cymunedol ddydd Iau, 26ain o Fedi wrth i ddisgyblion, rhieni, a staff ddod at ei gilydd ar gyfer Bore Coffi Macmillan llwyddiannus. Cynhaliwyd y digwyddiad yn neuadd yr ysgol ac roedd yn gyfle gwych i'r gymuned leol ddod ynghyd, mwynhau cacennau cartref, te a choffi, a chodi arian at achos da.

Diolch i haelioni a chefnogaeth pawb a fynychodd, codwyd swm arbennig o £324.35 ar gyfer Cymorth Canser Macmillan. Bydd yr arian yn mynd tuag at ddarparu gofal a gwasanaethau hanfodol i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan ganser.

Dywedodd y Pennaeth, Gethin Thomas, "Rydym wedi ein syfrdanu gan y gefnogaeth a haelioni anhygoel a ddangoswyd gan ein cymuned. Roedd yn hyfryd gweld pawb yn dod at ei gilydd i gefnogi achos mor deilwng. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd, pobi cacennau, ac am helpu i drefnu'r digwyddiad."

Hoffai Ysgol Penybryn estyn eu diolch i bawb a fu'n rhan o wneud y bore coffi yn llwyddiant mawr. Mae pob cyfraniad, boed yn fawr neu'n fach, wedi gwneud gwahaniaeth.

**Ymweliad Blwyddyn 6 a Chaerdydd**
Wel am dridiau anhygoel a gafodd blwyddyn 6 yng Nghaerdydd, a pha ffordd well o gychwyn blwyddyn newydd sbon nag ymweld â phrifddinas Cymru. Tridiau yn llawn ymweliadau diddorol a llawer o hwyl wrth gwrs. Ein man cychwyn oedd ymweld â Phwll Mawr ym Mlaenafon, cyfle i ddysgu am fywyd ac amodau gwaith caled y glowyr yn y gorffennol. Yna bum yn y Senedd, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Stadiwm Principality, cwch cyflym ar hyd y bae, bowlio deg a'r sinema. Cafodd y plant brofiadau gwerthfawr, bythgofiadwy. Diolch o galon i'r holl staff am roi gofal mor arbennig i'r plant, ond mae'r diolch mwyaf i'r plant am ymddwyn mor arbennig â bonheddig gydol y daith gan ddod ag enw da i Ysgol Penybryn unwaith eto. Edrychwn ymlaen at daith lwyddiannus arall y flwyddyn nesaf.



**Gŵyl Caseg!**
Roedd Abercaseg yn llawn cyffro ar noson braf o 'Haf Bach Mihangel' yng nghanol mis Medi, wrth i'r gymuned leol ddod at ei gilydd ar gyfer Gŵyl Caseg, ffair ysgol lwyddiannus. Roedd y digwyddiad yn llawn hwyl ac adloniant, gan gynnwys stondinau amrywiol, castell neidio, DJ, bwyd blasus a chacennau, ac amryw o gemau - gan gynnwys gêm boblogaidd o daflu sbyngiau gwlyb at y pennaeth!

Roedd y ffair yn ddathliad gwych o ysbryd cymunedol Pesda, gyda theuluoedd a ffrindiau yn mwynhau diwrnod llawn chwerthin a hwyl. Bydd yr holl elw o'r digwyddiad yn mynd tuag at wella adnoddau chwarae ar gyfer y ddwy ysgol.

"Roeddem yn falch iawn o weld cynifer yn bresennol ac mor frwdfrydig," meddai un rhiant fu'n helpu efo'r trefniadau. "Roedd yn noson i'w gofio, ac rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth ein cymuned."

Diolch enfawr i bawb a helpodd i drefnu, gwirfoddoli, ac a fynychodd y digwyddiad – mae eich cefnogaeth yn gwneud gwahaniaeth i'n hysgolion.



# Y Gerlan

**Penblwydd hapus arbennig**
Penblwydd hapus arbennig i Myfanwy Owen, Stryd y Ffynnon oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 70 diwedd Medi. Gobeithio bod y dathlu'n parhau Myfanwy. Hoffai Myfanwy ddiolch i'w holl deulu a ffrindiau am eu caredigrwydd ar yr achlysur hapus yma.

**Croeso i Gerlan**
'Da ni'n croesawu dau gyfaill o Rwmania i Gerlan - Benji a Nansi. Mae'r ddau wedi teithio i gartrefi'n Gwernydd a Stryd Goronwy ar ôl bod yn byw ar y Stryd ac yna mewn cartref cŵn yn Rwmania ers rhai blynyddoedd. 'Roedda nhw'n ffrindiau gora yno a ddim yn disgwyl y bysa nhw'n gweld ei gilydd eto hyd nes i'r ddau gyrraedd Cymru. Dwi'n siŵr bod yr aduniad yn Gerlan wedi bod yn un emosiynol iawn i'r perchnogion a'r cŵn.

**Brysiwch Wella**
Gyrrwn ein cofion cynhesaf at Ann Hughes, Freithwen Isaf sydd wedi bod yn yr ysbyty ers ychydig wythnosau. Gobeithio eich bod yn cryfhau Ann.

**Hel Atgofion am Gerlan, yr Ysgol a'r Caban**
Ar ddydd Gwener y 25ain o Hydref (4-7) a dydd Sadwrn y 26ain o Hydref (10-12.30), byddwn yn cynnal paned a sgwrs yn Y Caban i hel atgofion am yr ardal. Mae croeso cynnes i bawb a dewch a'ch hanesion a'ch lluniau efo chi.

**Beetlejuice Beetlejuice**
Os yda chi wedi bod yn y sinema yn ddiweddar i weld Beetlejuice Beetlejuice, yna mae'n bosib eich bod wedi gweld enw Mabli Non Jones yn y credydau.



Mae Mabli'n creu mowldiau ar gyfer ffilm a theledu ac wedi helpu i greu'r creaduriaid a'r prostheteg sydd i'w gweld ar y sgrîn fawr.

Llynedd, mi fuodd yn gweithio ar The Acolyte ac Andor, dwy gyfres deledu o fyd Star Wars.

Ac mae'r ffilm ddiweddara iddi weithio arni newydd ei ryddhau – Beetlejuice Beetlejuice, wedi ei chyfarwyddo gan Tim Burton ac yn ddilyniant i Beetlejuice.

Yn ddiweddar, cafodd Mabli gyfle i drafod ei gwaith ar raglen Aled Hughes ar Radio Cymru ac 'roedd 'na erthygl ddifyr ar BBC Cymru Fyw.

Ar ôl astudio Celf yn yr ysgol, aeth ymlaen i ddilyn cwrs Celf Sylfaen yng Ngholeg Menai Bangor, cyn symud i lawr i Lundain i astudio Mould Making yng Ngholeg y Celfyddydau Llundain.

Da ni'n falch iawn o dy lwyddiant Mabli ac yn edrych mlaen i gael gweld y ffilm.



**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Caleb Hartleb sydd wedi ennill belt brown yn ddiweddar. Mae Caleb yn hyfforddi efo Burman's Marshall Arts yn Llanberis ac yn amlwg yn mwynhau ac yn gweithio'n galed. Mae Caleb yn 8 oed erbyn ac wedi bod yn hyfforddi ers 3 mlynedd. Da ni'n edrych ymlaen at glywed am dy lwyddiant dros y blynyddoedd i ddod.



**Gerlan ar ddiwrnod o Fedi**
Diolch i Elaine Hughes am y llun arbennig yma o Gerlan uwch y cymylau ym mis Medi. Da ni'n byw mewn lle braf!

# YSGOL BODFEURIG

**Diwrnod Ieithoedd Ewrop**
Pob blwyddyn bydd pawb yn edrych ymlaen at y diwrnod yma. Mae'n gyfle i ddysgu mwy am wledydd Ewrop, dysgu am yr ieithoedd sy'n cael eu siarad yno ac wrth gwrs cyfle i flasu bwydydd o wledydd eraill. Cawsom ddiwrnod llawn hwyl a pawb wedi dysgu llawer am ein cymdogion yn Ewrop!

**Peldroed yr Urdd**
Roeddem yn falch iawn o dîm peldroed blwyddyn 5 a 6 am gystadlu yn cystadleuaeth pel droed yr Urdd. Gwnaeth pob un eu gorau glas - da iawn chi!





**Diwrnod Owain Glyndwr**
Y tymor yma mae dosbarth Ogwen yn edrych ar y cwestiwn mawr 'Oes angen rheolau?' fel rhan o'r gwaith maent yn edrych ar sut roedd ein gwlad yn cael ei redeg yn y gorffennol. Dyna gyfle da felly oedd y cyfle i ddathlu diwrnod Owain Glyndwr. Cafodd plant yr ysgol i gyd hwyl yn gwisgo fyny mewn coch a melyn, creu baneri a dysgu am y dyn ei hun cyn cael gorymdaith o gwmpas tir yr ysgol!

# Cyngor Cymuned Bethesda

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o'r Cyngor ar nos Iau, 26ain o Fedi yn rhithiol dros Zoom.

**Partneriaeth Ogwen**
Ar ôl 10 mlynedd, mae Meleri Davies yn gadael Partneriaeth Ogwen i weithio fel ymgynghorydd datblygu cymunedol. Bydd yn camu i rôl Prif Weithredwr Interim gyda'r Galeri o fis nesaf ymlaen ond bydd hi hefyd yn gweithio'n llawrydd i'r Bartneriaeth un diwrnod yr wythnos fel Cyfarwyddwr Strategol. Ers ei phenodi yn 2014, arweiniodd Meleri nifer o brosiectau mwyaf y Bartneriaeth yn cynnwys sefydlu cynllun hydro cymunedol Ynni Ogwen ac yn fwy diweddar, datblygiad prosiect Yr Hen Bost. Bydd hi'n awr yn trosglwyddo'r awenau i Donna Watts a'r tîm wrth iddi symud ymlaen i bennod gyffrous newydd. Donna Watts fydd Prif Swyddog Gweithredol y cwmni o hyn allan gan arwain y tîm o dros 20 o staff sy'n gweithio i'r Bartneriaeth. Bydd staff eraill hefyd yn cymryd dyletswyddau ychwanegol ymlaen wrth i Meleri adael y Bartneriaeth.

Hoffai'r Cyngor ddiolch o galon i Meleri am ei holl waith ar hyd y Dyffryn, ac yn dymuno'r gorau iddi hi a phob lwc yn ei phennod newydd. Hoffai'r Cyngor hefyd longyfarch Donna Watts, ar ei rôl newydd fel Prif Swyddog Gweithredol ac yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio yn y dyfodol.

Roedd Donna yn gyn-glerc i'r Cyngor, ac felly rydym yn sicr iawn fod y sefydliad mewn dwylo diogel

**Cysgodfan Bws Arfaethedig Maes Bleddyn**
Yn dilyn gohebiaeth gan Gyngor Gwynedd, mae'r Clerc yn parhau i edrych ar opsiynau a lleoliadau gwahanol ar gyfer cysgodfan bws.

**Cyflwr Ffordd Hen Barc**
Adroddwyd yn ystod y cyfarfod fod cyflwr y ffordd rhwng Sgwâr Rachub a Hen Barc mewn cyflwr difrifol. Nododd y Cyng. Paul Rowlinson ei fod wedi derbyn ymateb ar y mater gan Gyngor Gwynedd, a chadarnhawyd nad oedd y lleoliad wedi ei glustnodi ar gyfer gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol yma - fel rhan o'r gwaith cyllidebu refeniw arferol. Penderfynwyd bod y Clerc yn cysylltu gyda Siân Gwenllian AS i bwyso ar y mater.

Bydd y cyfarfod cyffredinol nesaf yn cael ei gynnal ar yr 24ain Hydref am 19.00 yng Nghanolfan Cefnfaes.

**Ysgoloriaeth Ysgol Dyffryn Ogwen**
Hoffai'r Cyngor longyfarch Connor Dillon ac Osian Sherlock ar ennill Ysgoloriaeth Cyngor Cymuned Bethesda. Cynhaliwyd Seremoni Wobrwyo Dyffryn Ogwen ar nos Fawrth, 10fed o Fedi yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Mae'r Cyngor yn hynod falch o gael noddi'r wobr hon eto eleni.


Mark Davies
07447804110
Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans
Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs
mark@mdcaravans.cymru
MCEA

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616 | Pwllheli (01758) 703000


MODURON PANDY Cyf.
UNIPART CAR CARE CENTRE
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

Cegin Karen
Cacennau, Peis a Sawrus
Te Prynhawn a Bwffe ar gael
@CeginKaren Tel: 07886 560781
Ebost / Email: ceginkaren@btinternet.com

C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants
Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno
C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.


Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk

# UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

**Gan Andre Lomozik**



## RHAN 21

**18 OGWEN TERRACE, BETHESDA**

**Elizer Jones**, gŵr o Fangor, a'i deulu oedd yn byw yn rhif 18 Ogwen Terrace yn y flwyddyn 1871. Roedd Elizer wedi ei eni ym Mangor yn y flwyddyn 1826, ac yn beintiwr yn ôl ei alwedigaeth. Yn y cyfrifiad mae'n nodi ei fod yn cyflogi dau ddyn. Ellen oedd enw ei wraig ac roedd hi yn 39 oed ac yn enedigol o Gaernarfon. Roedd ganddynt chwe phlentyn yn fyw ar ddydd y cyfrifiad, sef John Wynne (1858) a oedd mewn ysgol yn y Borth, Mary W. (1860), Charles W. (1862), Alice A. (1864), William Jones (1867), a Robert a anwyd yn (1869). Fodd bynnag, mae cofnod o ferch a mab i Elizer ac Eleanor ei wraig wedi eu claddu ym mynwent Eglwys Crist, Glanogwen, sef Catherine a fu farw yn flwydd a hanner oed yn 1866 ac Robert eu mab a fu farw yn wyth a hanner oed, yn 1867.

Roedd nai i Elizer Jones, bachgen o'r enw William Samuel Wynne, 15 oed, yn aros gyda hwy ar ddydd y cyfrifiad. Roedd o yn enedigol o Gaernarfon. Yn ogystal â'r teulu roedd morwyn o'r enw Margaret Jones 17 oed yn enedigol o Landdeiniolen.

Ni arhosodd Elizer a'r teulu yn rhif 18 Ogwen Terrace yn hir. Maent yn ymddangos yn nghyfrifiad 1881 yn byw yn rhif 21 Ogwen Terrace, ond roeddynt wedi symud cyn 1877 fel y cawn weld pan ddown i adrodd hanes rhif 21.

Mae cofnod o farwolaeth fferyllydd o'r enw John Evans yn ymddangos yn y *North Wales Express* ar y 13$^{eg}$ o Rhagfyr 1878: 'EVANS – Ar y 1$^{af}$ o Rhagfyr yn 35 oed bu farw Mr John Evans, fferyllydd 18 Ogwen Terrace, Bethesda.'

Yna yn *Y Genedl Gymraeg* ddydd Iau Hydref 28 1880 mae John Edwards 18 Ogwen Terrace, Bethesda yn cael ei enwi fel un o uchel reithwyr ym mrawdlys y sir.

Felly y John Edwards yma oedd yn byw yn rhif 18 Ogwen Terrace ar ddydd y cyfrifiad 1881, gyda'i wraig Dorothy, a anwyd yn Llandygái yn 1827. Mae John yn nodi yn y cyfrifiad mai dilledydd wedi ymddeol ydoedd. Roedd John a'i wraig wedi symud o rif 14 Ogwen Terrace rywbryd cyn 1879. Roedd nith i John a Dorothy yn aros gyda hwy yn 1881, sef Dora Ellen Jones, yn enedigol o Lerpwl. Roedd hi yn 24 oed. Mae morwyn yno hefyd o'r enw E. Thomas, wedi ei geni yn Llanllechid yn 1855. Bu Dorothy farw yn hanner cyntaf 1884 yn 59 oed, ac mae wedi ei chladdu ym mynwent Glanogwen. Mae'n debygol fod John wedi marw erbyn 1894, yn 67 oed.

Erbyn cyfrifiad 1891 mae 13 o bobl yn byw yn rhif 18 Ogwen Terrace, sef **George Brymer,** pen teulu, wedi ei eni yn Nolbenmaen yn y flwyddyn 1852, yn fab i George a Jane Brymer. Yng nghyfrifiad 1861, roedd y teulu yn byw yn Highgate, Dolbenmaen, ac roedd chwech o blant i George a Jane. Dilledydd a groser oedd tad George Brymer (1852), ac fe ddilynodd George (1852) ei dad yn yr un alwedigaeth, oherwydd yng nghyfrifiad 1881 mae o'n gweithio gyda'i frawd William Wynne a'i chwaer Anne mewn siop yn Llanberis.

Cawn hanes priodas George yn *Y Genedl Gymraeg*, Awst 22 1883: 'Priodas Miss Evans, Bryn Derwen, a Mr Brymer, Masnachwr, Ogwen Terrace. Roedd amryw o faneri wedi cael eu rhoddi allan i ddathlu'r achlysur yma. Merch hynaf Mr J. J. Evans, Bryn Derwen, un o oruchwylwyr Chwarel y Penrhyn, gyda ail fab Mr Brymer, Tyddyn Elen, Llanrug, cymerodd y briodas le yn Nghapel Jerusalem (M.C.) am 10 o'r gloch y bore. Roedd llawr y capel yn orlawn gyda edrychwyr a gwrandawyr. Gadawodd y pâr ifanc yn fuan ar ôl y gwasanaeth ar eu ffordd i Lundain cyn cychwyn ar eu mis mêl ar y cyfandir. Tanwyd llawer o fagnelau (Cerrig Cannon) ar hyd a lled y dyffryn, ac chafwyd fireworks campus yn yr hwyr, gyda band pres y Penrhyn o dan arweiniad Mr John Davies (Eos Ogwen) yn chwarae.'

Annie oedd enw y briodferch ac roedd wedi ei geni yn 1859 yn Llandwrog. Yna cawn bedwar o blant, i gyd wedi ei geni yn Llanllechid - J. G. Brymer y mab hynaf ar Fedi 7(1884), George (1886), Jane Anderson (1888), a William Wynne (1890). Roedd y gweddill yn forwynion neu weision i George - Barbara Williams (1870), dilledydd cynorthwyol, o Ffestiniog; Ellen Williams (1872), gwniadwraig, Llanllechid; Evan Evans (1871), dilledydd cynorthwyol, Llanllechid; Robert Richard Jones (1872), groser cynorthwyol, Llanllechid; John Evans (1875) dilledydd cynorthwyol, Llandygái; Jane Mary Thomas (1871) morwyn, Llanllechid; a Mary Roberts (1873), morwyn, wedi ei geni yn Vermont U.D..

Dyma englynion a ymddangosodd yn *Y Genedl Gymreig* Hydref 1 1884 (Cyflwynedig i Mr John George Brymer).

Duw Iôn, o'i ddeheulaw dyner – rasol,
Roisai John George Brymer:
Yn rhodd i'w fam, dinam dêr,
Anwyl yw un o lawer.


Tlws anwyl ddestlus wyneb,-a'i wên fwyn
Yr un fath a phurdeb;
Wel, yn wir, wela' i neb
Gaf eto i'w gyfateb.

Hoff anwyl, wyt yr un ffunud-dy wedd
A'th dad; ni fedd bywyd
Tan haul, fel ti, anwylyd,
Wesyn bach, tlysa'n y byd.

Yn lawenydd i'w linach-breiniwyd wŷr
I Bryn – derwen bellach;
A'm hawen ddywed mwyach-
"Bri mawr byth i Brymer bach".
Bethesda Eos y Berth

**(i'w barhau) tro nesaf rhif 18 a 19 Rhes Ogwen**


CHRIS GRIFFITHS CYF



Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369
neu 07813 455653

DAFYDD CADWALADR
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

L. STURRS A'I FEIBION
SEFYDLWYD YN 1965
ADEILADWYR
HEN IARD STESION, FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

# Côr y Penrhyn

## gyda Derfel Roberts



Diolch i Emyr Roberts am y lluniau y mis yma

**Helpu i godi arian at achos da.**
Yn niwedd Medi bu'r côr yn Llanberis yn canu yn y Ganolfan yno wedi i griw o bobl gerdded i ben yr Wyddfa i godi arian at yr elusen ' Just Donate' yn ystod yr Wythnos Rhoi Organau. Roedd y côr yno i ddiddanu'r cerddwyr a'r gynulleidfa wrth iddynt gyrraedd yn ôl i'r Ganolfan.



Y Côr yn eu capiau pinc ar y llwyfan yn Llanberis.

**Emosiynol**
Diddorwyd y gwrandawyr am tua ¾ awr ac roedd hi'n amlwg bod teuluoedd y rhai a ddioddefai o wahanol gyflyrau a chlefydau yn teimlo'n emosiynol iawn wrth wrando ar y côr yn canu Byd o Heddwch i derfynu'r adloniant.


(Ôl Nodyn)
**Cyhoeddwyd yn ddiweddar bod Cymru ar ei hôl hi cyn belled â bod cyflwyno organau'n bod. Er hynny, Cymru oedd y gyntaf i fynnu bod organau pobl yn cael eu tynnu'n awtomatig oni fo'r person a fu farw, neu ei deulu'n nodi eu gwrthwynebiad.)**

**Llwch a Llechi**
Ynghanol prysurdeb mawr bu aelodau'r côr yn ymarfer yn galed ar gyfer cyngerdd mawreddog a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ynghanol Mis Hydref. Roedd y gwaith hwn a gyfansoddwyd gan Gwen Siôn yn waith cwbl newydd a chyffrous, oedd yn cyfuno seiniau electronig, a hefyd seiniau gan gerddorfa Genedlaethol y BBC a'r cyfan yn cael ei goroni gan gyfraniad Côr y Penrhyn.

Thema'r prosiect yw hanes a thraddodiadau'r diwydiant llechi yng Ngogledd Cymru gan gysylltu hynny â'r tirlun ac â'r berthynas ddofn y gellir olrhain ei gwreiddiau yn ôl i draddodiad llafar y Celtiaid.

Bydd deg darn yn cael eu perfformio i gyd gyda theitlau fel, - ***Naddu'r lechan***, ***Mae yna Lwch a Lludw***, a ***Lechan Las, mae gen i atgof***.

Bydd adroddiad llawn yn cael ei roi yn y rhifyn nesa o Lais Ogwan.



John R Jones o Rachub, un o aelodau hynaf y côr, yn gwisgo ei gap 'Just Donate' gyda'r apêl i bobl gyflwyno organau.

---







# CHWILAIR



## LLAIS OGWAN YN HANNER CANT OED









| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | U | L | U | E | T | Y | N | Y | D | D | Y | R | F | O | L | L | W | F |
| Y | S | G | O | L | G | L | A | N | R | H | Y | D | I | D | W | A | L | H | R |
| I | P | N | N | Y | R | F | F | Y | D | Y | R | U | D | A | I | D | D | Y | D |
| E | W | J | Y | L | C | M | B | V | B | H | X | J | U | I | S | V | S | H | E |
| I | Y | M | G | H | N | Y | T | H | Y | G | A | N | V | H | M | D | W | H | U |
| N | S | Z | M | X | R | V | A | D | D | N | A | P | A | U | Q | U | S | O | F |
| E | Y | G | A | I | R | N | E | U | D | D | A | U | R | P | Y | Q | Z | G | R |
| W | N | H | C | U | M | W | E | N | O | Y | R | I | A | S | Z | U | T | F | D |
| G | C | X | U | P | W | R | H | P | C | Q | H | W | E | H | O | Y | E | E | G |
| O | O | E | O | M | H | E | P | T | Y | T | C | B | B | C | U | U | J | P | L |
| S | F | T | M | I | V | V | D | C | B | N | B | F | R | F | O | G | J | V | I |
| R | I | H | T | R | A | B | S | O | D | R | O | R | I | A | G | I | R | R | X |
| W | O | I | M | H | T | T | O | S | K | O | P | I | W | R | C | M | K | C | B |
| T | D | O | R | C | X | V | R | Y | H | S | T | M | B | R | E | F | Y | J | D |
| O | D | **C** | **E** | **R** | **R** | **I** | **G** | **M** | **A** | **N** | Z | H | B | I | C | W | O | S | C |
| G | O | R | A | O | R | F | R | U | A | S | A | H | T | I | E | D | M | Y | C |
| S | E | I | X | N | I | L | X | J | J | M | B | W | T | E | X | M | M | D | X |
| T | R | I | B | R | A | W | D | O | D | R | E | G | A | R | T | H | R | K | F |
| U | P | C | Q | Y | O | I | L | F | E | R | Z | Q | R | O | C | T | D | O | G |
| W | S | L | Z | E | B | E | A | J | K | J | C | L | N | L | R | V | O | G | C |

Yn y Chwilair mis yma MAE PENAWD DEUDDEG ERTHYGL ayyb, SYDD WEDI YMDDANGOS YN Y LLAIS TROS YR HANNER CAN MLYNEDD DIWETHAF i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 25 Hydref. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu cerdyn yn iawn.**

**Dyma atebion Chwilair Medi:-** Alys; Beca: Bethan; Catrin; Ceri; Efa; Erin; Ffion; Heledd; Megan; Rhian; Sioned.

Nifer fawr iawn ohonoch wedi cael hyd i'r enw HAF yn y Chwilair hefyd ynghyd ag un neu ddau o enwau eraill, felly rwyf wedi derbyn yr enw yna fel ateb cywir gan nad oeddwn wedi sylwi ei fod yn ymddangos yn y Chwilair.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r atebion cywir:-** Rosemary Williams, Tregarth; Doris Shaw, Bethesda; Elizabeth Buckley, Tregarth; Judith Hughes, Llangoed; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Eirwen Owen, Erw Las; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Gwen Davies, Bethesda,

**Enillydd Medi oedd:-** Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf, Bethesda, Gwynedd.

# Natur o'n Cwmpas

***Gofynnais i Ben Stammers gyfrannu i'r golofn y mis hwn. Fel y gwyddoch, mae Ben yn byw'n lleol ac yn swyddog efo Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Gwerthfawrogaf ei barodrwydd i gyfrannu o'i arbenigedd, a diolchaf iddo am yr erthygl ddiddorol ganlynol am un o brosiectau'r Ymddiriedolaeth.***

## Gwrach yr Eglwys

Mae gwenoliaid duon yn rhyfeddol. Maen nhw'n bwyta, yn cysgu, yn yfed ac yn paru tra'n hedfan, ac yn mynd heb gyffwrdd â'r ddaear am ddwy neu dair blynedd cyntaf eu bywydau. Mudwyr is-Sahara ydyn nhw, gydag adenydd hir fel llafnau, ac un o'r creaduriaid cyflymaf yn y byd (yn hedfan hyd at 69mya) – yn wir, mae hi'n haeddu ei henw Saesneg *Swift*. Mae eu cri hiraethus, fain uwch ein pennau yn sain atgofus yr haf, ac mae hen enw arall, *Gwrach yr Eglwys*, yn cyfeirio at eu perthynas agos â ni, a'n hadeiladau.

Rydan ni'n lwcus yn Nyffryn Ogwen bod y gri yma yn dal i'w chlywed o'n cwmpas – yn anffodus mae gwenoliaid duon yn prinhau'n gyflymach nag unrhyw aderyn arall yng Nghymru (gostwng 76% ers 1995). Gall sawl ffactor fod yn gyfrifol am hyn, gan gynnwys dirywiad pryfed neu effeithiau newid hinsawdd – ond problem fawr arall yw colli ei safleoedd nythu, sef ceudodau mewn adeiladau. Fel enghraifft leol: yn ôl un cyn-breswylydd, mi oedd gwenoliaid duon yn gyffredin ar hyd Stryd Cefnfaes ym Methesda cyn i waith adnewyddu ar y tai yn yr 1980au eu cau allan, drwy rwystro mynediad i'r bondo.

I geisio mynd i'r afael â'r mater hwn, mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru wedi gosod blychau nythu arbennig i fyny yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn cynnwys ar adeiladau addas ein hardal ni, e.e. Plas Ffrancon, Clwb Rygbi, y Ganolfan Feddygol, Canolfan Cefnfaes, Neuadd Ogwen, Capel Carmel, Ysgol Dyffryn Ogwen, Arafa Don, a Llety'r Adar. Gwnaed rhai o'r blychau hyn gan Sied y Cyn-filwyr.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cynnal teithiau cerdded o gwmpas Bethesda bob mis Gorffennaf i gael syniad o'u niferoedd, ac i nodi'r safleoedd nythu.


Gwennol ddu yn gadael blwch nythu (gyda synhwyrydd sain).

Mae'r wybodaeth yma'n awgrymu bod gwenoliaid duon yn dal i nythu o gwmpas Penybryn, Capel Bethania a Chanolfan Cefnfaes, gyda llond llaw o nythod yn Gerlan, Carneddi, Rachub a Thregarth, ond ein bod ni o bosib wedi eu colli o safleoedd hanesyddol fel Tai'r Eglwys, Felin Fawr, a Stryd John.

I geisio deall yn well beth sydd y tu ôl i golledion fel y rhain, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu prosiect ymchwil eleni, yn defnyddio meicroffonau a chamerâu tu mewn i flychau nythu i fonitro darpariaeth bwyd i'r cywion. Mae hi hefyd wedi creu deiseb ar-lein, sy'n gofyn i Lywodraeth Cymru helpu gwenoliaid duon: Deddfu i sicrhau bod briciau gwenoliaid duon yn cael eu gosod ym mhob adeilad newydd yng Nghymru - Deisebau (senedd.cymru)

Sut allwch *chi* helpu? Llofnodwch y ddeiseb, a rhowch eich cofnodion o wenoliaid duon ar dudalen Cofnod: http://www.cofnod.org.uk/LinkInfo?ID=10.

***Ffaith ddifyr:*** *gall gwenoliaid duon fyw am amser hir o ystyried mai adar bach ydyn nhw – hyd at 20 flynedd – ac mae'n bosibl y byddent yn deithio hyd at* ***4 miliwn o filltiroedd*** *yn ystod y cyfnod yna, sy'n cyfateb i hedfan i'r lleuad ac yn ôl 8 gwaith.*


Gwennol ddu uwchben Rachub, efo Cwm Marchlyn yn y cefndir.

*Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.*


CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati (yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Prisiau rhesymol
ORIAU AGOR
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 – 2.30

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED
A.G.L. Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
**Andrew G. Lomozik B.A.**
**Ffôn:** 01248 602117
**Symudol:** 07835487909

BARBWR OGWEN
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Natasha

Gareth Williams
TREFNYDD ANGLADDAU
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

# Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Ysbyty**
Cofion cynnes a gwellhad buan i'r rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, sef:-

Gwyn Williams, Carneddi; Rhiannon Hughes, Lôn Sarnau; Carl Evans, Hafan; Helen Roberts, Abercaseg.

**Damwain**
Wrth fynd am dro ar hyd Ffordd Pantglas, cafodd Rita Lewis ddamwain i'w hwyneb a'i braich. Wedi dyddiau yn yr ysbyty, da deall ei bod gartref ac yn gwella.

**Clwb Gorffwysfan**
Aeth criw o'r aelodau a chyfeillion ar wibdaith i Gaer ddydd Mercher, 25 Medi. Cafwyd diwrnod da a phawb wedi mwynhau. Ar fore Sadwrn, 28 Medi, cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus iawn yn Festri Capel Jerusalem pan wnaethpwyd elw o £300.00. Diolch i bawb a fu'n helpu, ac am y gwobrau a'r nwyddau i gyd.

Gwibdaith nesaf , dydd Mercher, 4 Rhagfyr, i Warrington. Enwau a blaen-dal i Joe.

**Gwellhad Buan**
Dymunwn wellhad buan i Heddwyn Griffith, Adwy'r Nant a fu yn yr ysbyty dros yr haf.

**Croeso**
Croeso i Llinos Bryn sydd wedi symud o Rachub i Erw Las. Gobeithio y byddi'n hapus iawn yn dy gartref newydd.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau Siân a Gethin, Hen Barc, ar enedigaeth eu merch fach Rhiannon Urien a anwyd ar Fedi 6ed. Llongyfarchiadau hefyd i Marian a Brynmor, Ffordd Coedmor ar ddod yn nain a thaid.

**Marw**
**Nia Heledd Elis-Williams**
Ar Fedi'r 4ydd yn dawel ym mreichiau ei theulu, ar Ward Alaw Ysbyty Gwynedd bu farw Nia Elis-Williams, 25 Penybryn. Anfonwn ein cydymdeilad at ei gŵr, Gruff, ei phlant Gwion, Guto a Lleucu a'u priod, Nia, Jo-jo a Nathan,ei hwyrion a wyresau, Carwyn, Ynyr, Addison, Gwenlli, Macsen, Celyn Mai a Mabli.

Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Bangor, ddydd Mawrth, 24 Medi dan arweiniad y Parchedig Dyfed Roberts, Ynys Môn, a thalwyd teyrnged annwyl iawn i wraig, mam, nain a ffrind ffyddlon gan Gruff. Ymgasglwyd wedyn yng Nghlwb Rygbi Bethesda, clwb a oedd yn agos iawn at galon Nia lle y bu yn ysgrifennydd gweithgar ac egnïol gan fod yn gefnogwr brwd.

Bu'n daith hir i Gwion, sydd bellach wedi ymgartrefu yn Nhrevelin, Patagonia. Tra oedd yma cyhoeddodd yr elusen Dravet Syndrome UK eu bod yn cynnal diwrnod noddi drwy fynd ar y weiren wib (zip) a chafodd Gwion le i ymuno â hwy. Cyd-ddigwyddiad a fuasai wrth fodd calon Nia gan bod casgliad er cof amdani yn mynd i'r elusen hon. Mae Celyn Mai, merch fach Gwion yn byw gyda'r anhwylder. Felly cafodd y teulu ddiwrnod arbennig i gofio am Nia, eu gwraig, mam a nain.

**Dringo'r Pymtheg Copa**
Dyma'r her a roddodd Bleddyn Williams iddo'i hun i'w chwblhau yn ystod y flwyddyn hon, a hynny cyn i'r tywydd mawr ddod ar ein gwartha. Awst 10fed oedd y dyddiad a benderfynwyd arno a rhagolygon y tywydd i weld yn bur addawol yn ystod y dyddiau cynt. Ond ar y bore hwnnw doedd o ddim cystal â'r disgwyl ac roedd Bleddyn ar fin gohirio pan gafodd neges gan Chris Williams, oedd hefyd yn gwneud y daith, yn awgrymu y dylid cychwyn o Foel Grach a'r Carneddau gan orffen ar y Grib Goch a'r Wyddfa. Ac felly y bu a cychwynodd y pedwar, Bleddyn, Chris, Meilyr Wyn a James Ogwen yn blygeiniol tua'r Carneddau. Trwy niwl, glaw a thywydd garw ar adegau llwyddwyd i gyrraedd y pymtheg copa a dod adref yn un darn. Roedd hynny gyda llawer o ddiolch i Angharad, Osian ac Alaw ddaeth a bwyd a diod at Lyn Ogwen ddwywaith, hefyd i Trystan Pritchard am y caniau coke ac i Richard Moore am aros yn amyneddgar amdanynt i'w cludo adra o Lanberis.

Roedd Bleddyn wedi cael ei noddi i wneud y daith ac yn casglu arian tuag at Canolfan Cancr Felindre Caerdydd wedi i ddau o'i ffrindiau gael gofal arbennig yno yn eu brwydr yn erbyn yr aflwydd, ond a gollodd y dydd yn ystod y flwyddyn diwethaf, sef Dyfrig 'Topper' a Betsan, sef gwraig Dewi Huws, gynt o Gaerhun. Casglwyd y swm anrhydeddus o £1500. Dymuna Bleddyn a'r hogia ddiolch i bawb am bob cyfraniad a chefnogaeth.

**Y Ficerdy**
**5, Rhos y Nant**
**Bethesda LL57 3PP**

## Annwyl berchennog busnes a thrigolion y Stryd Fawr ym Methesda,

Dros y tair blynedd ddiwethaf mae'r Stryd Fawr wedi gweld Defaid, Sêr a chymeriadau o'r Geni yn yr wythnosau yn arwain at y Nadolig.

Fel eich Caplan Bro, hoffwn drefnu digwyddiad cymunedol arall i ddathlu Gŵyl y Nadolig eleni- Gŵyl Angylion! Hoffwn eich gwahodd i greu arddangosfa yn eich ffenast o wahanol angylion- allan o wlân, papur, pren, metal, crochenwaith, unrhyw beth! Mae'r Grŵp Gweu o Gaffi Blas Lon Las wedi dechrau gweu angylion bach o wahanol liwiau, a bydd rhai ar gael i,ch helpu chi addurno hefyd.

Yn draddodiadol mae angylion wedi cael eu gweld fel negeseuwyr o Newyddion Da a bysa'n dda i ddod ag ychydig o newyddion da i'n cymuned ni. Gobeithiwn hefyd codi Angel fawr ar lawnt Eglwys Glanogwen a threfnu Côr 'pop up' i ganu carolau yn agos at y Nadolig. Os hoffech gymryd rhan, cysylltwch â fi ar y rhif neu'r cyfeiriad e-bost isod.

Dwi'n gobeithio y byddwch yn hapus i gymryd rhan a chyfrannu at gyffro tymor y Nadolig .

Diolch o galon!

Cysylltwch â fi:-
Parch. Sara Roberts: 07967652981. FB: Caplan Bro, Bro Ogwen.
sararoberts@churchinwales.org.uk

Ogwen
Adferiad Corfforol
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN
Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein 07743373895 | info@ogwenphysical.co.uk | ogwenphysical.co.uk
Bethesda RFC Dol Dafydd, Bethesda, Bangor LL57 3NE

JOHN ROBERTS
Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

## YR EGLWYS UNEDIG

**Croeso'n ôl**
Braf yw cael ailafael yn ein gweithgareddau wedi cyfnod y gwyliau. Cynhaliwyd yr oedfa gyntaf fore Sul, Medi 8, o dan ofal ein Gweinidog, Mrs. Nerys Griffiths, a chafwyd neges effeithiol iawn ganddi. Yn ystod y mis, cawsom wasanaeth y Parchedig Cledwyn Williams – diolch iddo am ei ffyddlondeb i ni yn Jerusalem.

Hefyd, cynhaliwyd gwasanaeth undebol yng Nghaeathro, pryd y gweinyddwyd y Sacrament gan y Gweinidog - cyfarfod bendithiol iawn unwaith eto.

**Bore Coffi**
Cynhaliwyd Bore Coffi ddydd Sadwrn, Medi 21, er budd elusen Macmillan. Er mai siomedig oedd y nifer a fynychodd, gwnaed elw anrhydeddus iawn o dros £700.00. Mae ein diolch yn fawr i chwi y rhai a ddaeth i gefnogi ac i gynorthwyo, i Joni (Londis) am gyfrannu'r llefrith yn rhad ac am ddim, ac yn bennaf oll i Minnie am drefnu'r cwbl.

**Yr Ysgol Sul**
Gobeithiwn y bydd yr Ysgol Sul yn ailddechrau yn fuan iawn, o dan ofal Menna Wyn. Am wybodaeth pellach, cysylltwch â hi ar 01248 602822. Mae croeso bob amser i aelodau newydd.

**Llongyfarchiadau**
Anfonwn ein llongyfarchiadau at bob un o'r bobl ifainc sydd â chysylltiadau â Jerusalem yn dilyn eu llwyddiant yn yr arholiadau cenedlaethol diweddar. Dymunwn yn dda i bawb ohonoch ar eich taith addysgol pellach.

**Cofion**
Mae ein cofion yn mynd at bawb sydd yn fregus y dyddiau hyn, gan obeithio y cewch bob un ohonoch gysur a gofal ar eich aelwyd neu mewn cartref. Cofiwn yn arbennig am Elfed Bullock, sydd wedi bod trwy'r drin yn arw yn ddiweddar – ond mae'n dda deall ei fod adref o'r ysbyty bellach. Brysia i fendio, Elfed!

Cyhoeddiadau'r Sul (am 10 y bore oni nodir yn wahanol)
Hydref 20: Mr. Richard Morris Jones
Hydref 27: Mr. Donald Pritchard (5)
Tachwedd 3: Y Gweinidog
Tachwedd 10: Sul y Cofio
Tachwedd 17: Y Parchedig Robert Capon (5)
Tachwedd 24: Y Gweinidog

Cofiwch y bydd yr oedfaon ar gael drwy gyfrwng y ffôn – cysylltwch â Walter am fwy o wybodaeth.

**<u>DALIER SYLW:</u>**
**Dyddiad y Gwasanaeth Nadolig Cymunedol yw Rhagfyr 15, am 7.p.m., ac NID Rhagfyr 22 fel sydd yng Nghalendr Llais Ogwan.**

## EGLWYS CRIST, GLANOGWEN

Annwyl gymdogion,

Fel y gwyddoch, mae costau ynni a chynnal a chadw Glanogwen yn achosi cryn bryder, ac felly ar ôl trafodaeth gyda'r Parch Gareth Lloyd a Phwyllgor Bach Dyfodol Glanogwen, penderfynwyd symud dros y Gaeaf i gynnal gwasanaethau ddwywaith y mis. Rydym wedi ceisio canolbwyntio ar wyliau a dathliadau arbennig. Ac wrth gwrs, hoffwn hefyd eich hannog i gefnogi'r eglwysi eraill yn y Fro ar y Suliau eraill. Os ydych yn cyfrannu tuag at yr Eglwys, a fuasech mor garedig a pharhau i wneud hyn, oherwydd trist iawn fyddai bod yn fwy ar ein colled oherwydd y penderfyniad difrifol yma. Mae ein Clwb Cant yn adnewyddu ym Mis Hydref, felly cysylltwch os hoffech chwarae.

Gobeithiwn gweld nifer o'n cymdogion yn cefnogi ein gwasanaethau a'n digwyddiadau dros dymor yr Hydref/Gaeaf.

Diolch am eich holl gefnogaeth,
Parch. Sara (Caplan Bro Ogwen)

Dilynwch Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**


Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen — Plaid Cymru



Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRoberts@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237
Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456
Canol Bethesda • cynghorydd.RheinalltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092
Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru • 07765 400140
Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs: 01248 601754
07770 568743 (symudol)

1969
M.HUGHES A'I FAB
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
mhughesandson@hotmail.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

BYSUS D. P. OWENS RHIWLAS



01248 361044
07771 634195
Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partion ac ati.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

# YSGOL DYFFRYN OGWEN

**Seremoni Gwobrwyo 2024**
Cynhaliwyd Seremoni Gwobrwyo blynyddol yr ysgol nos Fawrth, Medi 10fed. Cafwyd cyfle i ddathlu llwyddiannau ein disgyblion a'n pobl ifanc yn academaidd, yn allgyrsiol ac o ran eu ymdrech gyda'u gwaith ysgol. Y person gwadd eleni oedd Dr Huw Jones, Is-Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Dyffryn Ogwen.

Y disgyblion a dderbyniodd wobrau am y perfformiadau TGAU gorau eleni, gyda llond trol o raddau A* ac A bob un oedd Jac Griffiths, Eban Pritchard a Twm Rowlands. Enillwyr y gwobrau am y perfformiadau Lefel A gorau oedd Nel Roberts a Megan Sonnex, pob un efo pedair gradd uchel.

Justin Williams a dderbyniodd y Wobr Cynnydd a noddwyd gan y teulu er cof am Wyn Davies, Bronydd Isaf.

Cyflwynwyd Ysgoloriaeth Dafydd Orwig eleni i Betsan Griffiths, Nel Roberts ac Osian Rowlands. Mae'r ysgoloriaeth yn cael ei dyfarnu'n flynyddol am berfformiadau Lefel A eithriadol i ddisgyblion sydd yn parhau gyda'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn gwneud hynny ym Mhrifysgol Cymru.

Aeth Ysgoloriaeth Cyngor Cymuned Bethesda i gofio am y Streic Fawr i Connor Dillon ac Osian Sherlock.

Diolch i Gyngor Cymuned Llandygai am gynnig gwobrau i ddisgyblion a ddangosodd ymdrech arbennig ymhob agwedd o'u gwaith ysgol. Enillwyr eleni Ffion Davies, Prys Jones, Ethan Artell, Gruff Beech, Siwan Griffith, Jac Heaton, Osian Owen, Celyn Rhys, Xander Sonnex, Elin Williams, Emily Williams, Gethin Williams, Elin Davies, Gwydion Davies, Keyan Foulkes, Cadi Hughes, Elliw Hywel, Daniel Looney ac Owain Foulkes.

Derbyniwyd gwobr Cyngor Cymuned Llanllechid am eu gwaith gyda Bagloriaeth Cymru gan Jac Griffiths, Evie Roberts a Nel Roberts.

Cyflwynwyd Gwobr Goffa Charlotte Speddy eleni i Elis Williams am ei ymdrechion yn gofalu dros y flwyddyn ac mae Ysgoloriaeth Charlotte Speddy eleni wedi mynd i Ellie Ball, Erin Griffiths ac Elen Williams.

Gwobr arbennig bob blwyddyn yw Tarian Carwyn Thomas a gyflwynir gan ei rieni, Mr a Mrs Emlyn Thomas, er cof amdano. Mae'r darian yn cael ei chyflwyno i ddisgyblion sydd yn gwneud cyfraniad arbennig ym maes chwaraeon, a'r enillwyr eleni oedd Gruff Beech a Max Williams am eu llwyddiannau ym maes pêl-droed.

Osian Rowlands oedd enillydd gwobr goffa Frank Rhys Jones, sef y wobr a gyflwynir gan y Pennaeth i ddisgyblion sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i fywyd yr ysgol.

Llongyfarchiadau hefyd i'r holl ddisgyblion a dderbyniodd wobrwyon pynciol, gwobr presenoldeb, gwobrau Seren, gwobr Dug Caeredin, Tystysgrif Cwrs Ffenics ac i dîm y flwyddyn sef tîm pêl-droed dan 14 yr ysgol.



TGAU GORAU
Jac Griffiths, Twm Rowlands ac Eban Pritchard



Gwobr Cyngor Cymuned Llandygai



Gwobr Efydd Dug Caeredin

## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

**Cydymdeimlo**
Daeth newyddion trist i'r ardal ychydig ddyddiau cyn i newyddion fynd i fewn i'r Llais am ddau farwolaeth ar yr un diwrnod.

**Eirlys Edwards**
Bu farw Mrs Eirlys Edwards, 51 Bro Infryn ar fore Iau, 26 Medi yn Ysbyty Gwynedd. Estynnwn ein cydymdeimlad ag Owie, ei gŵr, a Rhian a Siân y genod, meibion yng nghyfraith a'r teulu oll yn eu profedigaeth

**Arfon Thomas**
Ar nos Iau 26 Medi bu farw Mr Arfon Thomas,( gynt o Swn y Coed, Waen Wen) wedi symud i Llanfairpwll Tachwedd diwethaf, wedi gwaeledd blin. Pob cydymdeimlad at Eva ei wraig a'r plant, Stephen a Nerys, a'r teulu i gyd yn eu colled a'u galar.

**Ian Baird**
Cydymdeimlwm â theulu Mr Ian Baird, Ogwen Cottage, Caerhun a fu farw yn ddiweddar.

**Cartref Newydd**
Mae Dewi ac Ilid Anne Jones wedi mudo o Gilfan y Coed, Waen Wen, i gartref newydd yng nghyffiniau Bontnewydd a chroesawn Steve ac Yvonne i Gilfan y Coed gan ddymuno pob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd.

**Dosbarthiadau Torchau Nadolig**
Bydd Rachael Williams o "Dark Side of the Bloom" yn cynnal dosbarthiadau Gwneud Torchau Nadolig yn y Ganolfan yn dilyn poblogrwydd y dosbarthiadau y llynedd. Bydd y dosbarthiadau yn cael eu cynnal ar 22, 27 Tachwedd, 4 Rhagfyr o 6.00 - 8.00 yh a 7 Rhagfyr 12.00 - 2.00yp
Am fwy o fanylion cysylltwch â Rachael ar 07890549910.

**Bingo Bach**
Cafwyd noson lwyddiannus iawn, llawn hwyl ar 27 Medi yn y Bingo Bach i godi arian tuag at Canser MacMillan. Gwnaed elw o £222 tuag at yr elusen, diolch o galon i bawb am bob cyfraniad a chefnogaeth. Bydd y Bingo nesaf ar 25 Hydref am 7yh yn y Ganolfan a'r elw yn mynd tuag at elusen "Freshfields", elusen achub anifeiliaid sydd wedi ei leoli yn Nebo. Byddwn yn falch iawn o unrhyw gyfraniad tuag at y noson, dowch yn llu am noson o hwyl a chymdeithasu!

**Babi Newydd**
Llongyfarchiadau mawr i Marian Bryfdir a Dewi Jones, Bro Eryri, Waen Wen, ar ddod yn nain a taid yn ystod yr haf. Ganwyd mab, Eneko, i Jamie-Glyn, mab Marian, a'i wraig Zoë, sydd yn byw yn Llundain. Brawd bach i Blake.

**Llwybrau Cyhoeddus**
Diolch yn fawr iawn i Gyngor Cymuned Pentir am gadw llwybrau cyhoeddus yr ardal yn daclus. Wedi'r holl law a gafwyd dros yr haf mae tyfiant aruthrol wedi bod ar rhai o'r llwybrau! Mae yn bleser cael cerdded ar eu hyd unwaith eto a mwynhau y llwybrau bendigedig sydd yn y fro. Diolch Cyngor Pentir!

**Cylch Glasinfryn**
Braf oedd cael cyfarfod unwaith eto wedi sbel bach dros yr haf, yn y Ganolfan ar 11 Medi. Y wraig wâdd oedd Nia Jones sydd yn gweithio i'r Ymddiriedolaeth Natur Gogledd



**Pêl-droed Merched Blwyddyn 7 ac 8**
Dyma nhw tîm blwyddyn 7 ac 8 a fu'n chwarae pêl droed yn erbyn Ysgol Aberconwy yn rownd agoriadol Cwpan Ysgolion Cymru. Fe frwydrodd y merched yn yr ail hanner er mwyn curo a hynny yn ddiolch i ddwy gôl o gic rydd arbennig gan Myla, blwyddyn 7 a gôl dda gan Medi, blwyddyn 8. Da iawn ferched.

**Pêl-droed Bechgyn Tîm dan 14**
Cychwyn da i'r tymor i dimau pêl droed Ysgol Dyffryn Ogwen. Tîm bechgyn dan 14 wedi ennill o 8-1 yn erbyn Ysgol Dyffryn Conwy yn rownd cyntaf Cwpan Cymru. 6 gôl i Gruff Beech a gôl yr un i Tomi Hughes a Twm Parry.

**Gweithdy 'Olion'**
Cafwyd prynhawn o chwerthin a mentro mewn gweithdy gyda Chwmni'r Frân Wen yn ddiweddar. Bu criwiau o flynyddoedd 10 ac 11 yn arbrofi a thrafod cysyniadau pwysig fel hyder, cysyniad a hyd yn oed cael cyfle i ddawnsio. O ganlyniad, mae criw ohonynt wedi mentro i fod yn rhan o gast y cynhyrchiad 'Olion' gyda'r cwmni. Pob lwc iddynt.

**Gymnasteg**
Bu disgyblion o flwyddyn 8 a 9 yn ffodus iawn o gael treulio prynhawn yn Clwb Gymnasteg Dreigiau'r Dyffryn yn ddiweddar lle oedd cyfle i ddefnyddio yr offer anhygoel a chwarae'n rhydd o dan arweiniad Sophie Pipe.



**Copa 1**
Cafwyd ddiwrnod gwerth chweil yn mynychu COPA 1 - cynhadledd amgylcheddol ieuenctid gyntaf Cymru. Wedi cyrraedd rownd yr wyth olaf yng nghystadleuaeth Syniadau Mawr i wneud Yr Wyddfa yn fynydd di-blastig cyntaf y byd nôl ym mis Mehefin, derbyniodd syniadau Gruff, Max, Tomi, ac Eban ganmoliaeth gref mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn yn y categori "Arloesi". Da iawn bois!

Derbyniwyd canmoliaeth arbennig yn y categori "Creadigol", grwp Harri a Jack ddaeth i'r brig. Llwyddiant haeddiannol iawn. Edrychwn ymlaen at weld eu syniad yn cael ei wireddu dros y flwyddyn nesaf, byddent yn cydweithio gyda Pharc Cenedlaethol Eryri i droi eu syniad yn realiti. Chwiliwch am weithiau celf deniadol wrth droed llethrau'r Wyddfa yn y dyfodol. Llongyfarchiadau enfawr i chi fechgyn. Diolch Mrs Pritchard am sicrhau fod y disgyblion yn cael cyfleoedd mor werthfawr.

Cymru. Testun ei sgwrs oedd Prosiect SIARC (Sharks Inspiring Action and Research) Rhoddodd sgwrs hynod ddiddorol ar fywyd o dan moroedd Cymru, yn benodol Pen Llŷn a'r Sarnau a Bae Ceredigion. Mae'r Prosiect Siarc yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng cymunedau, ymchwilwyr, pysgotwyr a'r llywodraeth. Esboniodd Nia drwy luniau a'r arddangosfa oedd ganddi o wahanol Casys Wyau Siarcod (Mermaid's Purses) sydd yn cael eu golchi fyny i'r lan. Mae'r YNGC yn cynnal "Helfa Casys Wyau Mawr" ac yn ein addysgu i adnabod y chwe rhywogaeth sydd ar ein traethau sef, Maelgi, Morgath Ddu, Ci Pigog, Ci Glas, Morgath Drwyn Fain a'r Forgath Las. Pnawn addysgol iawn! Rhoddwyd y diolchiadau i Nia gan Marian.

Mair a Glenys oedd yn gweini'r te a Marian enillodd y raffl.

Trafodwyd ble i fynd am ein Parti Nadolig a phenderfynwyd i Mair gael Bwydlenni erbyn mis nesaf.

Ann Catrin, Gemydd, fydd ein siaradwraig ar 9 Hydref yn son am ei gyrfa a'i gwaith, yna ar 13 Tachwedd bydd John Cole yn sgwrsio ar "Ar draws y Fenai, sut a pham"

Croeso cynnes iawn i bawb ymuno a ni yn y Ganolfan am 2.00yp.



## Cerdded i godi arian at Ysbyty Plant

Yn ddiweddar cerddodd Emyr Roberts , Ffordd Bangor i weld y wawr yn codi ar gopa'r Wyddfa. Ar wahân i weld yr olygfa ysblennydd ar ddiwrnod clir a braf, pwrpas y daith oedd codi arian i gofio am Llinos Medi, merch chwaer Emyr a dderbyniodd driniaeth a gofal arbennig yn Ysbyty Alder Hey am flynyddoedd.

**Dros £68,000**
Llwyddodd Emyr ei hun i godi dros fil o bunnau i goffrau'r ysbyty ac mae'n dymuno diolch i bawb a gyfrannodd. Yn wir bu'r fenter i gyd yn gyfrifol am godi dros £68,000.

Llongyfarchiadau i bawb am eu hymdrechion hynod o lwyddiannus.

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

**CANOLFAN CEFNFAES**

## Gyrfa Chwist

**Hydref 22 a 29**
**Tachwedd 12 a 26**
**am 7 o'r gloch. Croeso i bawb**

## Clwb Coffi Talybont

**FESTRI BETHLEHEM**
Boreau Llun, 10.30 – 12.00
**Hydref 28**
**Tachwedd 11 a 25**
Croeso cynnes i bawb




## NEUADD OGWEN

**18/19 Hydref: Mawr y Rhai Bychain 2024**

**23 Hydref: Harold Lopez – Nussa – Pedwarawd Jazz Cuba**

## CLWB HANES RACHUB A LLANLLECHID

**Nos Fercher, Hydref 30ain, 2024**
am 7 o'r gloch yn y Clwb Criced
Bydd sgwrs gan
**Mair Read**
*[Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd]*
'Achau Plwyf Llanllechid'
CROESO CYNNES!

## CAFFI COLLED BETHESDA

Dydd Llun 1af & 3ydd bod mis
Canolfan Gorffwysfan
**************
Hydref 21: trip i Betws y Coed
Tach 4: Goleuo Cannwyll er cof
Tach 18: I'w drefnu.
Rhagfyr 2: panad a sgwrs
Rhagfyr 16: Cinio Nadolig
Ionawr 13: Panad a sgwrs
Ion 27: Blwyddyn Newydd Sineaidd
**************
Cysylltwch â'r Caplan Bro:
Parchg. Sara Roberts:
Sararoberts@churchinwales.org.uk
Ffôn symudol: 07967652981
FB: CAFFI COLLED

## "ELVIS YN FYW"

CYNGERDD LAS VEGAS
WYNNE ROBERTS

CLWB CRICED, BETHESDA

**NOS WENER, TACHWEDD 22**
**AM 7 O'R GLOCH**

MYNEDIAD: £10.00 (DAN 16 OED: £5)
*TICEDI GAN ROSEMARY 07950589170*
*NEU TALU AR Y DRWS*

ELW: EGLWYS SANTES FAIR, TREGARTH.

## P'NAWN DIFYR

sgwrs
crefft
**@NEUADD GORFFWYSFAN**
Stryd Fawr, Bethesda
**POB DYDD GWENER, 1-3**
jig-sos
croeso i bawb
gemau bwrdd
am ddim

**Gwener olaf y mis: Cawl & Bara**

Caplan Bro, Parch Sara Roberts
07967652981

CANOLFAN TREGARTH

**Ar ddiwedd blwyddyn o welliannau sylweddol**

**CYFARFOD BLYNYDDOL**
yn y Ganolfan

**Nos Fercher 20 Tachwedd 2024**
6.30 yh

*Croeso cynnes i bawb*

## Dyddiadur Boreau Coffi

**2024**

02 Tachwedd – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen – Top Cefnfaes.

**Pwysig**

*Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos bob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*



## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

**Nos Lun, 11 Tachwedd**
**am 7 o'r gloch**
**Howard Huws**
*'Diwylliant Gwerin Dyffryn Ogwen a'r Cylch'*

**Lleoliad y Cyfarfodydd:**
**Wyneb yn wyneb:** Yn festri Capel Jerusalem, Bethesda. Cofrestrwch efo garethllwyd197@btinternet.com

**Rhithiol tros Zoom:** Cofrestrwch efo bethan@ogwen.org erbyn 12 o'r gloch dydd Llun y ddarlith ar yr hwyraf.

**FFI AM Y CWRS:**
**£10.00 i rai mewn gwaith**
£5.00 i bensiynwyr a'r di-waith
Plant ysgol am ddim
Cost darlithoedd unigol = £2.00

Y ffioedd i'w talu i gyfrif "Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen" drwy:
BACS: **40-16-02 41386212,** neu
Gydag arian parod ar y noson.

FESTRI CARMEL

Llanllechid

## Te Bach

Dydd Llun, 28 Hydref
2.30 – 4.00

LLAWR UCHAF CEFNFAES

## BORE COFFI

**EISTEDDFOD DYFFRYN OGWEN**
Sadwrn, 2 Tachwedd
10.00 – 12.00
Mynediad : £1.00

## Cymanfa Garolau

**yng Nghapel Shiloh Newydd, Tregarth**

**24 Tachwedd am 7.30**
Arweinydd : Cefin Roberts
Unawdydd : Meinir Wyn Roberts
Côr Glanaethwy
Elw : Atgyweirio
Eglwys St. Cedol, Pentir

## Cyfarfod Blynyddol LLAIS OGWAN

yn Llawr Isaf Cefnfaes
Nos Iau, 7 Tachwedd
am 7 o'r gloch
Croeso i bawb

## Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

**Nos Wener, 15 Tachwedd 2024**
**Am 6.00yh**
**(Drysau ar agor am 5.45yh)**
**yn Neuadd Ogwen**

***Seremoni'r Orsedd, Cystadlaethau'r Corau Unawdau Lleisiol ac Offerynnol a Chystadlaethau i Ysgolion Uwchradd***

**Mynediad: £4.00 (Oedolion): £1.00 (Plant)**

**Sadwrn, 16 Tachwedd 2024**
**Dechrau am 10.00 yb**
**yn Ysgol Dyffryn Ogwen**

***Gwledd o Gystadlaethau Cynradd: Canu, Llefaru, Offerynnol, Dawns, Celf a Chrefft***

**Mynediad: £3.00 (Oedolion): £1.00 (Plant)**

# Nyth y Gân




### STORM AR Y GLANNAU

O'r dechrau, profi'r dychryn, y gwyntoedd
Gwantan drodd mor sydyn,
A theidiau anferth wedyn,
Haenau gwyllt o donnau gwyn.

### AFON GASEG

Ar dir llwm yn fwrlwm fydd, yn burfain
O berfedd y mynydd;
Ar y rhiw mae hi mor rhydd
O'i dilyn hyd y dolydd.

Gafael y mae'r atgofion am ei lli,
Am ei llais yn gyson;
Y sŵn hen y sy' yn hon
Yw nefoedd glannau afon.

### Y WIWER

Hudol oedd gweld ei neidio yn fedrus,
Ni fedraf anghofio;
Un ddawnus a oedd yno
Yn y brig yng nghoed ein bro.

### Y WENNOL

Yn gwibio'n braf mae'r wennol
Mor ysgafn uwch ein pen,
A chwilio am fwyd y mae hi
Yng ngwacter glesni'r nen.

Fe wyddom ers peth amser
Fod gwennol fach mor chwim
Yn gallu dal pryfetach
Fel pe bai hyn fawr ddim.

Faint o filltiroedd tybed
Yw'r dynfa atom ni
Sy'n denu hon i Gymru
Drwy hedfan dros y lli?

**Dafydd Morris**

# UAC yn annog ffermwyr i fod yn wyliadwrus wrth i achos 1af o feirws y Tafod Glas gael ei gadarnhau yng Nghymru

Heddiw, mae Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) wedi pwysleisio i ffermwyr y pwysigrwydd o fod yn wyliadwrus ac yn ystyriol wrth brynu a gwerthu da byw wrth i'r achos cyntaf o firws y Tafod Glas (BTV-3) gael ei gadarnhau yng Nghymru.

Cafodd BTV-3 ei gadarnhau mewn tair dafad oedd wedi eu symud i Wynedd o ddwyrain Lloegr ddydd Gwener, 27 Medi 2024 ar ôl i brofion ganfod y firws.

Ar hyn o bryd, mae Parth Diogelu mewn lle ar hyd ochr ddwyreiniol Lloegr, oherwydd bod feirws y Tafod Glas yn fywiog ym mhoblogaeth gwybed yr ardal.

Yn ôl Ian Rickman, Llywydd yr Undeb: "Mae'r sefyllfa bryderus hon yn amlygu'r angen i bob ffermwr fod yn llwyr ymwybodol o'r risg sydd wrth ddod a da byw o ardaloedd sy'n dioddef neu'n ffinio a'r Dafod Glas, yn enwedig gan bod y tymor prynu a gwerthu stoc bridio ar ei hanterth.

"Rhaid cymryd camau cyfrifol os ydych yn bwriadu prynu da byw o ardaloedd sy'n ffinio â'r Parth Diogelu yn nwyrain Lloegr, oherwydd natur symudiad y pryfed bach, y gwybed, sy'n cario'r haint."

Mae BTV-3 yn feirws sydd angen cyswllt prydlon, yn ôl y gyfraith, â swyddogion y llywodraeth trwy eich milfeddygon. Mae'n effeithio ar anifeiliaid sy'n cnoi cil fel defaid a gwartheg ac mae'n cael ei ledaenu trwy wybed yn brathu, gan gludo'r firws o un anifail i'r llall. Mae'r firws yn achosi twymyn, briwiau ac wlserau o amgylch y trwyn a'r geg, pen chwyddedig a chloffni, ac mewn achosion eithafol mae'n achosi erthyliad a marwolaeth. Fodd bynnag, nid yw rhai o'r arwyddion hyn yn bresennol ym mhob achos.

"Mae'n bwysig nodi nad yw Feirws y Tafod Glas yn effeithio ar bobl nac ar ddiogelwch cig a chynnyrch llaeth," meddai Ian Rickman.

"Fel diwydiant, mae angen i ni fod yn wyliadwrus o'r rôl rydyn ni'n ei chwarae wrth atal y firws hwn rhag lledaenu, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n rhydd o'r clefyd ar hyn o bryd.

"Mae angen i ni fod yn hynod o ofalus wrth brynu da byw, o gofio bod y firws yn cael ei ledaenu gan bryfetach ond y gellir ei drosglwyddo hefyd trwy semen ac embryonau heintiedig. Mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth o arwyddion clinigol y firws yn ein hanifeiliaid."

Cynghorir aelodau Undeb Amaethwyr Cymru i ddarllen yr arwyddion clinigol o'r Tafod Glas ar dudalen 10 o rifyn mis Hydref 2024 o gylchgrawn yr Undeb, Y Tir.

## *Ledi'r Wyrcws*




Un diwylliant, dau fyd

**Ble:** perfformir y ddrama lwyfan newydd hon yn **Galeri, Caernarfon** (5 Tachwedd, 14.00 a 19.30) a **Neuadd Dwyfor, Pwllheli** ( 7 ac 8 Tachwedd, 19.30).

**Pwy**: *Actorion:* **Morfudd Hughes, Owen Arwyn** a **Judith Humphreys**; *cynhyrchu*: Judith Humphreys; *awdur:* **Jerry Hunter**. *Cynhyrchiad Galeri* yw hwn, gyda chefnogaeth Cronfa Ffyniant Bro a Chyngor Gwynedd (er mwyn hybu gwaddol Eisteddfod Genedlaethol Boduan).

**Y stori**: Mae'n 1955, oes yr NHS newydd, ond mae'r hen wyrcws yn sefyll o hyd, a rhai o'i drigolion yn garcharion tlodi ers hanner canrif a mwy. Daw dwy fenyw o gefndiroedd hollol wahanol wyneb yn wyneb, y naill yn cludo traddodiad a'r llall yn gobeithio diogelu'r traddodiad hwnnw. Ond wrth ganu, recordio a thrafod caneuon gwerin, daw hanes cudd i'r golwg.

Dywed Jerry Hunter am hanes ysgrifennu'r ddrama hon:

Roeddwn i'n annerch cymdeithas Gymraeg mewn capel yn Ninbych rai blynyddoedd cyn Covid. Ar ôl gorffen y sesiwn, roeddwn i'n cerdded allan yng nghwmni un aelod o'r gymdeithas. Cododd law a chyfeirio at hen adeilad ar ochr arall y stryd. "Dyna hen wyrcws Dinbych," meddai fo, gan ychwanegu "yn fan'no recordiodd Ledi Amy Parry-Williams rai o'i chaneuon gwerin gorau gan wreigan a oedd yn byw yno."

Cydiodd y stori yn fy nychymyg yn syth a dechreuais hel meddyliau a gofyn cwestiynau i mi fy hun fel: tybed pwy oedd y wraig honno a pham oedd hi wedi diweddu yn y wyrcws? Pa fath o sgyrsiau gafodd Amy Parry-Williams â hi – 'rhwng y caneuon', fel petai? Hefyd, roeddwn i'n synnu bod 'wyrcws' – rhywbeth y cysylltir ag Oes Fictoria, *Oliver Twist* ac *Enoc Huws* – yn sefyll y 1950au, oes yr NHS newydd.

Roedd yn ddifyr meddwl am y ddwy wraig yma yn treulio diwrnod yng nghwmni'i gilydd, y ddwy'n amlwg yn trysori'r un diwylliant ond yn dod o gefndiroedd mor wahanol ac yn byw mewn amgylchiadau mor wahanol. Drama lwyfan oedd y cyfrwng amlwg i archwilio sefyllfa o'r fath. Daeth yn amlwg yn syth mai cymeriadau ffuglennol wedi'u hysbrydoli gan y stori honno a glywais fyddai cymeriadau'r ddrama. Nid Y Foneddiges Amy Parry-Williams sydd yn y ddrama, ond Ledi Ann Parry Morgan, cymeriad sydd yn rhannu rhai nodweddion â'r Ledi Amy hanesyddol ond sy'n ffrwyth fy nychymyg i yn anad dim. Felly hefyd Siani Jones, y wraig sydd wedi bod yn byw yn y 'wyrcws' ers dros 40 mlynedd, yn garcharor tlodi i bob pwrpas, a'r caneuon gwerin a glywodd gan ei mam hanner canrif yn ôl yn gwmni iddi. Dyna hefyd Mr. Roberts, goruchwyliwr y sefydliad, dyn sy'n ceisio gwireddu gweledigaeth newydd a throi'r hen wyrcws yn sefydliad gwaraidd modern ond sy'n gwegian dan y pwysau ar adegau.

**Tocynnau:**
**Galeri – https://www.galericaernarfon.com/beth-sydd-mlaen-selected.php?show-id=873664914**

**Neuadd Dwyfor - https://neuadddwyfor.ticketsolve.com/ticketbooth/shows/873665478**

Am fanylion pellach, mae croeso i chi gysylltu â:
**Jerry Hunter: jhtyddyn@gmail.com / 07875 254 163**

# CHWARAEON



**Clwb Pelrwyd**

Sefydlwyd Clwb Pelrwyd i blant Bethesda yn ôl yn Ionawr 2024 gan Nerys Jones. Mae'r nifer sy'n mynychu'r sesiynau yn dangos bod galw am y math yma o weithgaredd gan bod nifer o genod yn dod i'r ymarferion bob wythnos. Wrth i'r niferoedd dyfu penderfynodd Nerys greu un tim o dan 10 oed a dau dim o dan 12 oed er mwyn cystadlu yng Nghyngrair Pelrwyd y Gogledd Orllewin. Golygai hyn y byddai'r genod yn chwarae yn wythnosol o Fedi 2024 tan Fai 2025 draw yng Nghanolfan Brailsford, Bangor.

Ar ddiwedd y flwyddyn ysgol gosodwyd her i'r genod o seiclo noddedig yr un pellter ag o Fethesda i Gaerdydd ac yn ôl. Byddai'r arian yn prynu ffrogiau ar gyfer eu gemau. Cynhaliwyd yr wythnos seiclo ym Mhlas Ffrancon a bu'n llwyddiannus iawn. Casglwyd £955 rhwng caredigrwydd teulu a ffrindiau, ac fe dderbyniwyd cyfraniad hael iawn gan Dylan Hughes Steve Roberts o Ogwen Masonary a Gareth Roberts o GJB Joinery.

Hoffai'r genod a finna ddiolch i'r uchod yn ogystal â Plas Ffrancon, y rhieni a'r gymuned am eich cefnogaeth dros y misoedd diwethaf. Mae amser cyffrous o'n blaenau rwan wrth i ni ddechrau ein Taith Pelrwyd yn y gyngrair.

**Diolch, Nerys.**



## Tîm Bowlio Hŷn Bethesda yn ennill dyrchafiad

Ar ôl curo Benllech B ym Methesda yn gêm ola'r tymor, roedd Tîm Bowlio Hŷn Bethesda yn sicrhau eu bod yn cael chwarae yng Nghynghrair A y flwyddyn nesa'.

Roedd Maldwyn Pritchard, y capten yn hapus iawn gyda pherfformiad ei dîm ac meddai "Mae pawb wedi gweithio'n galed am y canlyniad yma a gwnaeth pawb ei ran trwy droi i fyny'n ffyddlon i ymarfer bob pnawn Llun."

Ychwanegodd Maldwyn "Bydd raid i ni barhau â'r gwaith caled y flwyddyn nesa oherwydd bydd y sialens sy'n ein hwynebu yn fwy llym ac angen mwy o ganolbwyntio ar fod yn fuddugol."

Cytunai yr Is-gapten, Heddwyn Morris, pan ddywedodd bod ymdrechion y tîm wedi bod yn ganmoliaethus ac wedi dwyn ffrwyth, er gwaethaf ambell i siom yma ac acw. "Dan ni'n diolch I bawb am eu cefnogaeth ac yn falch bod John Roberts, y tirmon, wedi llwyddo i ddarparu lawnt o safon i ni chwarae arni," meddai.

Pob lwc i'r tîm yn 2025.

**Tabl y gynghrair ar ddiwedd y tymor.**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Caergybi -** | **158 pwynt** |
| **2.** | **Bethesda -** | **130 pwynt** |
| **3.** | **Benllech B -** | **118 Pwynt** |
| **4.** | **Craig y Don C -** | **108 pwynt** |
| **5.** | **Caernarfon -** | **100 pwynt** |
| **6.** | **Porthaethwy -** | **95 pwynt** |
| **7.** | **Gwyngyll -** | **88 pwynt** |
| **8.** | **Dinas Cricieth -** | **88 pwynt** |
| **9.** | **Craig y Don B -** | **85 Pwynt** |
| **10.** | **Benllech C -** | **79 pwynt** |
| **11.** | **Llandudno -** | **73 pwynt** |
| **12.** | **Dwygyfylchi -** | **60 pwynt.** |


Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead cyf

Swyddfa Gofrestredig Penrala,
Tregarth, Bangor, Gwynedd,
LL57 4AU


Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

# CROESAIR



**AR DRAWS**

**6** Swnio fel lle bach i gadw ymborth i anifeiliaid; - na tynnu coes ydw i (7)
**7** Gweithred rhag gwireddu'r ddihareb 'Rhy dynn a dyrr' (5)
**8** I'w llwyfannu fel arfer (5)
**10** Adar pur yn trefnu a pharatoi ar gyfer nythu (7)
**12** I gyfarch yn anrhydeddus (6)
**14** Un bengoch yn ôl y nofel plant enwog (6)
**16** '- - - ti'n cofio'r lloer yn codi ?' (3)
**17** Ei - - - - - - ; ei le i fyw (6)
**19** Gwasanaeth y Cymun (6)
**22** Be, 'Dolig ? Na, oherwydd yr amser (7)
**24** Mynd i ysgol gynradd y sgolar i ddysgu (5)
**26** A'i sŵn fel un o'r 8 Ar Draws enwog S.L. (5)
**27** Swnio'n eneth fach annymunol (7)

**I LAWR**

**1** Y gallu i wneud yn dda (4)
**2** Cariad cywir gafodd Carwyn ym Mhontypridd eleni (6)
**3** Coelio neu ffydd (5)
**4** Chwaraeon o bob math (6)
**5** Un y Garth sydd ym Mangor (4)
**8** Difater, heb falio botwm corn (7)
**9** Hwyl bywiog a nwyfus (5)
**11** Dim fel 9 I Lawr ; mae'n anniddorol a diflas (7)
**13** Ynddo cewch wastad bwff o wynt (3)
**14** Encôr, fel mewn cyngerdd (3)
**15** Os loetran mewn gwlad ogleddol (5)
**18** Safle gyfrifiadurol drwy ddrws www. (6)
**20** Newid craff i'n taith i weld yr Olympiaid eleni (6)
**21** Dylan druan wrth y gadlas (5)
**23** Mae yn sobri wrth weld yr archoll (4)
**25** Yn ddwys yn chwilio am waith (4)

Atebion erbyn 1af Tachwedd 2024 ***fan bellaf*** *(ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach)* i 'Croesair Hydref', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

**ATEBION CROESAIR MEDI 2024**

**AR DRAWS** 1 Pallu, 3 Llechu, 7 Newid, 8 Etifeddu, 10 Cartref, 11 Anelu, 12 Morse, 17 Eglur, 18 Emyn Dôn, 19 Lladrata, 21 Draig, 22 Drych, 23 Cledd

**I LAWR** 1 Pinacl, 2 Llywarch, 3 Llai, 4 Chweched, 5 Adar Y Môr, 6 Hen Ferchetan, 9 Un Un, 11 Aderyn Du, 13 Deall, 14 Pladur, 15 Adfail, 16 Unigedd, 20 Awch

Atebion cywir gan bawb. Ardderchog ! A dyma enwau'r rhai llwyddiannus: M. A. Jones, Rachub; Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; Myrddin Williams, Capel Uchaf Clynnog; Dulcie Roberts, Gareth Oliver, Elizabeth Buckley, Rosemary Williams, Tregarth; Gill King, Mynydd Llandygai; John Ffrancon Griffith, Abergele; Margaret Williams, Doris Shaw, Ann Morris, Gaynor Elis-Williams, Bethesda; Judith Hughes, Llangoed; Medi Michael, Bangor; Huw a Gwenno, Gerlan; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Iona Williams, Llanddulas; Barbara Jones, Talybont

Mae'r clod a'r wobr y tro yma yn mynd i Ann Morris, 26 Ffordd Ffrydlas, Bethesda, Bangor, Gwynedd.

Llongyfarchiadau i chi.




**MODURDY FFRYDLAS**

Profion M.O.T.

**PERCHNOGION**
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
**Stryd Fawr, Bethesda**
PROFION M.O.T.
GWASANAETH ATGYWEIRIO TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN

Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com


Dilynwch Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**